# Rhestr @LlyfrDa

## *Detholiad o lyfrau darllen Cymraeg i ysgolion uwchradd*



### Nofelau ias a chyffro, Arswyd ac Ysbrydion

| | Prif Themâu | |
|---|---|---|
| **Bws y Nos**<br>Anthony Horowitz<br>(Tudur Dylan Jones) | Mae'n noson Calan Gaeaf ond nid chwarae triciau mae'r meirw byw ar y bws nos! Pan mae ei dad yn rhoi lifft i fodiwr, mae Jacob yn wynebu problem. Mae rhywun yn cuddio cyfrinach farwol. A phwy yw'r dyn a chanddo wyneb melyn yn llun pasbort Peter? Peter? Nage, siŵr iawn! | Rily<br>9781904357223<br>£3.99 |
| **Y Ffôn yn Marw**<br>Anthony Horowitz<br>(Tudur Dylan Jones) | Dyw ffôn symudol David ddim yn stopio canu, ond nid galwadau arferol yw'r rhain. Mae hi'n edrych yn debyg fod David yn gallu cysylltu â'r nefoedd … neu uffern. Mae gan Isabel deimlad ofnadwy fod y bath Fictoraidd y mae ei rhieni wedi'i osod yn disgwyl amdani. Ond a fydd y dŵr yn glir neu'n goch? | Rily<br>9781904357216<br>£3.99 |
| **Blwch yr Ysbryd**<br>Catherine Fisher<br>(Gwen Redvers Jones) | Mae Sara'n casáu Mat ei llysfrawd newydd sy'n Goth. Fyddai hi byth yn dweud wrtho am ei breuddwydion rhyfedd. Am yr wyneb yn y goeden, y llygaid sy'n ei gwylio. Ac yn bendant fyddai hi ddim yn dweud gair am y blwch – gallai hynny olygu bod y breuddwydion yn rhai go iawn. Pwy sy'n gwau gwe o ofn o gwmpas Sara? Oes unrhyw un y gall hi ymddiried ynddo? | Barrington Stoke Ltd<br>9781781121412<br>£6.99 |
| **Y Lleidr Hud**<br>Catherine Fisher<br>(Meleri Wyn James) | Doedd Gwion heb fwriadu dwyn hud y wrach. Ond dyna sut aeth o fod yn was bach i un oedd yn gallu newid ei siâp. Y dewin mwya pwerus yn y wlad? Efallai'n wir. Ond a fydd e'n gallu achub tywysog sydd mewn trybini? | Barrington Stoke Ltd<br>9781781121436<br>£5.99 |
| **Llofrudd y Camera**<br>Alan Gibbons<br>(Gwen Redvers Jones) | Roedd eu llygaid yn rhythu. Roedd eu cegau ar agor. Roedden nhw'n sgrechian. Pan mae Aled yn gweld y dyn â'r camera am y tro cyntaf, mae'n gwybod bod rhywbeth mawr o'i le. Ond does neb yn fodlon gwrando arno, ddim hyd yn oed pan fydd ei rieni'n diflannu. All Aled ddod o hyd i'r dyn unwaith eto, ac os bydd e'n llwyddo, all e gael ei rieni 'nôl? | Barrington Stoke Ltd<br>9781781121405<br>£5.99 |

### Ffantasi

| | | |
|---|---|---|
| ***Chwedlau'r Copa Coch*** | Cyffro • Teithio • Hiwmor tywyll • Arswyd | |
| **Yr Horwth**<br>Elidir Jones | Y gyntaf mewn cyfres ffantasi newydd i bobl ifanc – ac i unrhyw un hyn sy'n hoff o antur. Mae bwystfil yn bygwth y wlad, creadur yn syth o ganol hunllef – Yr Horwth. | Atebol<br>9781912261758<br>£7.99 |
| **Melltith yn y Mynydd**<br>Elidir Jones | Ar ôl trechu bwystfil hunllefus yn *Yr Horwth*, mae arwyr y Copa Coch bellach yn wynebu perygl llawer mwy – melltith yn y mynydd. | Atebol<br>9781913245399<br>£7.99 |
| ***Trioleg Yma*** | Ôl-apocalyptaidd • Rôl merched mewn cymdeithas<br>Trin pobol sydd yn 'wahanol' • Rhyddid a chaethiwed | |
| **Yma: Yr Ynys**<br>Lleucu Roberts | Mae Gwawr a Cai yn paratoi ar gyfer taith yn ôl i'r Henwlad er mwyn darganfod mwy am fywyd eu hynafiaid cyn ffrwydrad dinistriol y Diwedd Mawr a gafodd effaith dyngedfennol ar y byd. | Y Lolfa<br>9781784615031<br>£5.99 |
| **Yma: Hadau**<br>Lleucu Roberts | Wedi ymgartrefu yn nhref Aberystwyth yn yr Henwlad (Cymru), daw Gwawr a Cai o hyd i lwyth cyntefig sydd â'u stôr o fwyd bron â dod i ben – a'u hadau er mwyn tyfu cnydau. | Y Lolfa<br>9781784617097<br>£6.99 |

| | | |
|---|---|---|
| **Yma: Afallon**<br>Lleucu Roberts | Pan mae rhai'n cael eu cipio o Gymru, i ble maen nhw'n mynd? Ar yr wyneb mae'r lle fel Afallon ond ai fel yna mae hi mewn gwirionedd? | Y Lolfa<br>9781784616533<br>£6.99 |
| *Trioleg Y Melanai* | Peryg • Gwrthdaro • Ffantasi | |
| **Efa**<br>Bethan Gwanas | Mae Efa yn ddarpar frenhines gwlad Melanai ond mae hi'n gyndyn i ddilyn yr hen draddodiadau, gan gynnwys lladd ei mam, y frenhines, ar ei phen-blwydd yn 16 oed. Yn y stori, dilynwn Efa yn brwydro yn erbyn ei thynged ei hun. | Y Lolfa<br>9781784616526<br>£6.99 |
| **Y Diffeithwch Du**<br>Bethan Gwanas | Ar ôl i Efa a'i ffrindiau ddianc o'r Palas rhag iddi orfod lladd ei mam, y frenhines, yn dilyn traddodiad y wlad, maen nhw wedi cyrraedd Y Diffeithwch Du. Mae'r Diffeithwch Du'n llawn peryglon ac yno maen nhw'n cwrdd â chawr o'r enw Id, a nifer o anifeiliaid a sefyllfaoedd peryglus a heriol. | Y Lolfa<br>9781784615024<br>£6.99 |
| **Edenia**<br>Bethan Gwanas | Mae Efa a'i chriw bellach wedi cyrraedd tir Edenia lle maen nhw'n dod o hyd i lwyth arall o bobl. Pa fath o groeso gawn nhw yno a beth fydd yn digwydd i Efa ar ddiwedd y drioleg? | Y Lolfa<br>9781784617080<br>£6.99 |
| *Yr Hudlath a'r Haearn* | Antur • Perthynas plant â'u rhieni<br>Disgwyliadau cymdeithas • Cyffro | |
| **Yr Hudlath a'r Haearn**<br>Cressida Cowell<br>(Ifan Morgan Jones) | Dyma stori am Llŷr y dewin a Dôn y rhyfelwraig, ill dau wedi'u dysgu o'r crud i gasáu ei gilydd, a'r hyn sy'n digwydd pan ddaw bydoedd y ddau wyneb yn wyneb.<br>Unwaith roedd y byd yn drigfan i hud a lledrith mewn coedwigoedd tywyll. Hyd nes i'r Rhyfelwyr gyrraedd ... | Rily<br>9781849670777<br>£6.99 |
| **Yr Hudlath a'r Haearn – Y Ddau Ddewin**<br>Cressida Cowell<br>(Ifan Morgan Jones) | Mae Dôn yn meddu ar lyfr swynion grymus, ac mae gan Llŷr staen peryglus ar ei law. Roedd yn annhebygol y buasai'r ddau arwr hwn yn cyfarfod un waith; tybed a yw hi'n bosibl iddynt gyfarfod eilwaith? | Rily<br>9781849674881<br>£6.99 |
| **Yr Hudlath a'r Haearn – Curo Deirgwaith**<br>Cressida Cowell<br>(Ifan Morgan Jones) | Bellach mae Dôn a Llŷr ar ffo, yn cael eu herlid gan y Rhyfelwyr, y Dewiniaid a'r Gwrachod. Tybed a fedran nhw ganfod y swyn i ddifa'r Gwrachod cyn y bydd hi'n rhy hwyr? | Rily<br>9781849675390<br>£6.99 |
| *Dr Who* | Antur • *Sci-fi* | |
| **Dewis dy Dynged: Crafangau'r Macra**<br>Trevor Baxendale<br>(Elin Meek) | Ymuna â'r Doctor ac Amy ar eu teithiau trwy amser a'r gofod, a dylanwada ar y stori gyda dy benderfyniadau. Dewisa gyfeiriad, a gad i'r anturiaethau ddechrau. Mae perygl ac antur yn dy ddisgwyl ar daith ysgol i burfa nwy sy'n llawn crancod arallfydol anferth! Dim ond Amy a'r Doctor all rwystro'r Macra! | Rily<br>9781904357506<br>£5.99 |
| **Dewis dy Dynged: Y Rhyfel Oeraf**<br>Colin Brake<br>(Tudur Dylan Jones) | Ymuna â'r Doctor ac Amy wrth iddyn nhw deithio drwy amser a'r gofod. Ti sy'n penderfynu beth sy'n digwydd yn y stori. Dewis gyfeiriad a gad i'r antur ddechrau. Rwyt ti yn y Tardis ond mae e'n colli pwer ac yn gorfod glanio ar frys. Dim ond eira sydd i'w weld, does dim sôn am neb na dim. | Rily<br>9781904357513<br>£5.99 |
| **Cadi Goch a'r Ysgol Swynion**<br>Simon Rodway | Hud a lledrith • Cyfeillgarwch • Antur<br>Dyma nofel gyffrous am Cadi, sy'n cael ei dewis i fynd i ysgol arbennig i ddysgu hud a lledrith. Ond pwy yw'r bobl ddrwg go iawn? Mae Cadi a'i ffrindiau yn defnyddio pob math o driciau i ddod o hyd i atebion. | Y Lolfa<br>9781800990579<br>£7.99 |
| **Chwedlau'r Ddraig: Cwm y Wrach**<br>Meilyr Siôn | Hud a gwrachod • Yr Amgylchedd • Teulu • Bywyd ysgol<br>Ymgyrchu • Bwlio • Chwedlau lleol<br>Daw hen chwedl yn fyw yn y stori antur fodern hon. Ar ôl i'w theulu symud i ardal Aberaeron i gadw canolfan arddio, dydy pethau ddim yn fêl i gyd i Daisy. Mae'n cael ei bwlio yn yr ysgol ac mae bygythiad mawr yn wynebu ei hardal leol a'i chartref. Ar ôl benthyg llyfr chwedlau o ffair lyfrau'r ysgol, mae pethau rhyfedd – a rhyfeddol – yn dechrau digwydd. Ond fydd unrhyw un arall yn gweld beth mae Daisy'n ei weld? | Atebol<br>9781912261789<br>£6.99 |



| | | |
|---|---|---|
| **Dewin y Gaeaf**<br>Graham Howells | Cyffro • Hud a lledrith • Hiwmor<br>Pan mae awrwydr hud yn ymddangos yn ei fwthyn, mae'r Bwbach yn sylweddoli bod helynt ar y gorwel. A phan mae dewin tal mewn clogyn coch a'i gynorthwyydd Colin y Coblyn yn cyrraedd, mae'r Bwbach yn sylweddoli bod yn rhaid iddo gasglu creaduriaid hud Tai Ffagan ynghyd i achub ei ffrind gorau Mari rhag unrhyw berygl. | Gomer@Lolfa<br>9781785623226<br>£5.99 |
| **Harri Potter a Maen yr Athronydd**<br>J. K. Rowling<br>(Emily Huws) | Antur • Teulu • Ffantasi<br>Nofel gyntaf y gyfres hynod boblogaidd, yn dilyn hynt a helynt y bachgen ifanc wrth iddo fentro am y tro cyntaf i'r ysgol, a chwrdd â phob math o bobl a chreaduriaid. Mae bywyd Harri'n cael ei drawsnewid yn llwyr! | Bloomsbury Publishing Ltd<br>9781408871591<br>£14.99 |
| **Melltith Teulu Lambton**<br>Malachy Doyle | Mae bwystfil ofnadwy'n rhydd! Hen fwydyn drewllyd a dieflig. Lambton Bach sydd ar fai am bob dim. Fe oedd yn gyfrifol am ei ollwng yn rhydd. A fydd Lambton Bach yn llwyddo i ladd y bwystfil a gwneud popeth yn iawn … neu fydd e'n marw wrth geisio gwneud hynny? | Barrington Stoke Ltd<br>9781781121429<br>£5.99 |
| **Gethin Nyth Brân**<br>Gareth Evans | Hanes lleol • Chwedlau • Bwlio • Delio â salwch • Dewrder<br>Mae bywyd yn boen i Gethin, 13 oed, ym Mhontypridd. Mae e'n ffraeo gyda'i fam o hyd, does gan Caitlin ddim diddordeb ynddo, ac mae'r Tri Trist yn mynnu ei blagio. Diflas, diflas. Ond, yn dilyn parti yng nghartref Caitlin ar noswyl Calan Gaeaf, mae bywyd Gethin yn troi ben i waered, ac mae'n deffro mewn byd arall yn y flwyddyn 1713. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845276249<br>£5.99 |
| **Academi Mr Dŵm**<br>Jon Gower | Mae pethau wedi newid ers sefydlu Academi Mr Dŵm. Er gwell i rai, er gwaeth i Daf. Ond yn ffodus i Daf, mae ei ffrind Heti yn gallu cyfathrebu â phob anifail dan haul. Gyda chymorth system ddiogelwch yr academi – teigr anferth – mae Heti'n mynd ati i geisio achub Daf. | CAA Cymru<br>9781845216993<br>£5.99 |

## Rhyfel

| | | |
|---|---|---|
| **Bechgyn y Bomio**<br>Thomas Bloor<br>(Elin Meek) | Yr Ail Ryfel Byd<br>Gwanwyn 1944. Yr Ail Ryfel Byd. Mae bomiau'n disgyn a chriwiau awyrennau'n mynd ar gyrchoedd awyr bob dydd. Fydd rhai byth yn dod yn ôl. Hyd yma, mae Len wedi dod adref bob tro. A nawr dyma Johnny, ei beilot newydd. Un golygus, hyderus sydd wedi dod â lwc i bob criw hyd yn hyn. Dydy Len ddim mor siŵr, ond ar gyrch awyr i Berlin, mae Len yn dod i wybod sut un yw Johnny. | Barrington Stoke Ltd<br>9781781121399<br>£6.99 |
| **Y Bachgen Mewn Pyjamas**<br>John Boyne<br>(Emily Huws) | Yr Ail Ryfel Byd • Yr Holocost • Goddefgarwch<br>Stori ingol am ddarn o hanes na ddylid byth ei anghofio. Chlywodd Bruno, sy'n naw oed, erioed sôn am yr Ateb Terfynol na'r Holocost. Does ganddo ddim syniad fod ei wlad yn gwneud pethau mor greulon i bobl Ewrop. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845271664<br>£6.95 |
| **Ceffyl Rhyfel**<br>Michael Morpurgo<br>(Casia Wiliam) | Y Rhyfel Byd Cyntaf • Cyfeillgarwch • Perthynas pobl ag anifeiliaid<br>Dyma stori rymus am was fferm a'i geffyl yn cael eu gwahanu ar eu fferm yn Nyfnaint ac yn cael eu dal ym merw erchyll brwydro y Rhyfel Byd Cyntaf. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845272951<br>£6.00 |
| **Ci Rhyfel**<br>Sam Angus<br>(Gareth F Williams) | Y Rhyfel Byd Cyntaf • Cyfeillgarwch • Perthynas pobl ag anifeiliaid<br>Nofel deimladwy am gariad, ffyddlondeb a dewrder, yn adrodd stori llanc ifanc a'i gi yng nghanol erchyllterau, arswyd ac anhrefn y Rhyfel Mawr. | Gomer@Atebol<br>9781848517806<br>£5.99 |
| **Dyddiadur Anne Frank**<br>Anne Frank<br>(Eigra Lewis Roberts) | Yr Holocost • Yr Ail Ryfel Byd • Hiliaeth • Gelyniaeth<br>Dyddiadur Anne Frank, yr Iddewes ifanc a dreuliodd ddwy flynedd yn cuddio rhag y Natsïaid yn Amsterdam. | Ashley Drake Publishing Ltd<br>9781899869015<br>£9.99 |
| **Gwrando ar y Lloer**<br>Michael Morpurgo<br>(Emily Huws) | Y Rhyfel Byd Cyntaf • Cyfeillgarwch • Bwlio • Goddefgarwch<br>Addasiad un o glasuron Michael Morpurgo. Campwaith o stori am deulu, rhyfel, atgofion a maddeuant. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845275228<br>£7.50 |

| | | |
|---|---|---|
| **Pluen**<br>Manon Steffan Ros | **Yr Ail Ryfel Byd • Dementia**<br>Un haf mae Huw yn paratoi prosiect am yr Ail Ryfel Byd. Ond mae pethau rhyfedd yn digwydd pan mae'n dechrau ymchwilio i gyfrinach brawd ei nain, a hithau yn byw gyda dementia. | Y Lolfa<br>9781784613181<br>£5.99 |
| **Milwr Bychan**<br>Bernard Ashley<br>(Siân Melangell Dafydd) | **Gwrthdaro yn Llundain • Rhyfela yn Affrica**<br>Roedd Kaninda yn arfer bod yn filwr yn nwyrain Affrica ond mae e nawr yn blentyn amddifad ac yn byw yn Llundain. Pan gaiff plentyn sy'n byw ar stad gyfagos ei daro gan gar, daw Kaninda wyneb yn wyneb â gwrthdaro unwaith eto. | Rily<br>9781904357278<br>£5.99 |
| **Y Llew Pilipala**<br>Michael Morpurgo<br>(Casia Wiliam) | **Y Rhyfel Byd Cyntaf • Cyfeillgarwch • Perthynas ag anifeiliaid**<br>Ar ôl i Byrti achub llew bach gwyn amddifad yn Affrica, mae'r ddau yng nghwmni ei gilydd drwy'r amser nes i'r bachgen orfod mynd i ysgol breswyl yn Lloegr. Mae'n gwneud llw y bydd y ddau yn dod ynghyd eto ryw ddydd, ond y llew ei hun sy'n sicrhau na fydd eu cyfeillgarwch yn mynd yn angof. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845274955<br>£5.99 |
| **Y Gêm**<br>Gareth F. Williams | **Cyfeillgarwch • Gelyniaeth • Y Rhyfel Byd Cyntaf • Teulu**<br>Dyma stori dau ffrind o Gymru ddaeth yn elynion ar y cae pêl-droed. Pan ddaeth y Rhyfel Mawr yn 1914, fe gymerodd un gêm bêl-droed arbennig yn erbyn gelynion go iawn – Almaenwyr a Phrydeinwyr – i'r ddau sylweddoli pa mor werthfawr yw cyfeillgarwch mewn gwirionedd. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845274962<br>£5.99 |

## Cymru, Cymreictod a Hanes Cymru


| | | |
|---|---|---|
| **Darn Bach o Bapur**<br>Angharad Tomos | **Hawliau iaith • Hanes y Gymraeg • Hanes Cymru**<br>Mae'r stori hon yn seiliedig ar safiad Eileen a Trefor Beasley a ddechreuodd yn y 1950au i wrthod talu treth cyngor Llanelli nes iddyn nhw dderbyn ffurflen Gymraeg. Parodd eu protest wyth mlynedd a wynebodd y teulu galedi mawr. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845274931<br>£5.99 |
| **Henriét y Syffrajét**<br>Angharad Tomos | **Mudiad y Syffrajéts • Menywod yn cael pleidleisio**<br>**Hanes safle'r ferch mewn cymdeithas**<br>Mae'r stori'n mynd â ni i'r carchar, i gell merch ar streic newyn sy'n cael ei gorfodi i dderbyn bwyd drwy diwb drwy'i thrwyn. Awn i ganol cyffro gweithredoedd y Suffrajéts yn Llundain. Ond down hefyd i bentref chwarel yng ngogledd Cymru lle mae dwy o ferched ifanc yr ardal yn cael eu cyffwrdd gan y cyffro a'r syniadau newydd ... | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845276515<br>£6.99 |
| **Paent!**<br>Angharad Tomos | **Hawliau iaith • Hanes Cymru**<br>Yn y nofel hon daw miri arwisgo Siarl yng Nghastell Caernarfon ac ymgyrch Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i gael arwyddion dwyieithog yn ystod haf 1969 yn fyw. Tybed sut effaith gaiff un haf tyngedfennol yn hanes ein gwlad ar Robert? | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845275204<br>£5.99 |
| **Cwmwl dros y Cwm**<br>Gareth F. Williams | **Hanes Cymru • Dylanwadau cymdeithasol • Trasiedi • Galar**<br>**Trychineb Senghennydd**<br>Toc cyn 8.30 y bore, 14 Hydref 1913, bu farw 439 o ddynion a bechgyn mewn ffrwydrad erchyll yng nglofa Senghennydd. Roedd cwmwl du o fwg uwchben y lofa adeg y ddamwain ond hefyd arhosodd cwmwl du dros fywydau trigolion Senghennydd am weddill eu hoes. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845274405<br>£5.99 |
| **Gwenwyn a Gwasgod Felen**<br>Haf Llewelyn | **Codi llais yn erbyn gorthrwm • Hanes Cymru**<br>Mae ffermwyr Llanuwchllyn 1860 yn dlawd, ac mae'n rhaid iddyn nhw dalu'r Degwm. Dyma nofel am bobl gyffredin yn codi llais. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845276508<br>£6.99 |
| **Yr Argae Haearn**<br>Myrddin ap Dafydd | **Dylanwadau cymdeithasol • Cymuned • Diwylliant • Hanes Cymru**<br>'Fydd dim un Tryweryn arall yng Nghymru!'<br>Dyma stori'n portreadu dewrder trigolion Cwm Gwendraeth Fach wrth iddynt frwydro i atal eu tiroedd a'u cartrefi rhag cael eu boddi yn ystod Haf 1963. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845275785<br>£5.99 |

| | | |
|---|---|---|
| **Y Goron yn y Chwarel**<br>Myrddin ap Dafydd | Dylanwadau cymdeithasol • Cymuned • Diwylliant<br>Hiliaeth • Ail Ryfel Byd<br>Mae'r stori hon wedi'i gosod ym Mlaenau Ffestiniog yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn Lerpwl, mae'r bomiau'n chwalu adeiladau a theuluoedd ac mae'n rhaid i'r plant adael am loches mewn ardaloedd mwy diogel. Sardar Singh Basra yw un o'r plant yna, ac mae Blaenau Ffestiniog yn newid byd llwyr iddo, ac yntau eisoes wedi ymfudo i Lerpwl gyda'i deulu o Punjab yn India. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845277079<br>£6.99 |
| **Mae'r Lleuad yn Goch**<br>Myrddin ap Dafydd | Dylanwad cymdeithasol • Diwylliant • Ffoaduriaid<br>Hanes Cymru • Hanes Rhyfel Cartref Sbaen<br>Nofel am y Tân yn Llŷn a llosgi Gernika. Mae tân yn y cartref henoed yn gorfodi Megan, sydd bellach yn nain, i ddewis un peth o'i llofft wrth i'r adeilad gael ei wagio gan y timau diogelwch. Pam ei bod wedi dewis hen faner denau goch, gwyrdd a gwyn? | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845276232<br>£5.99 |
| **Pren a Chansen**<br>Myrddin ap Dafydd | Dylanwadau cymdeithasol • Diwylliant • Teulu • Hanes Cymru<br>Mae Bob yn dechrau yn Ysgol y Llan ar ddiwedd gwyliau'r haf. Ond mae nifer o bethau yn ei boeni. Dydi oes y 'Welsh Not' ddim ar ben yn yr ysgol honno a does ganddo yntau ddim Saesneg. Gan fod Bob hefyd wedi bod yn fachgen gwael ei iechyd ers pedair blynedd, mae'n dechrau'r ysgol yn wyth oed yng nghanol dosbarth y plant lleiaf. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845276423<br>£6.99 |
| **Twm Bach ar y Mimosa**<br>Siân Lewis | Cyfeillgarwch • Mudo i Batagonia • Hiraeth • Trasiedi<br>Mae Daniel, bachgen 10 oed a'i deulu yn mudo o Aberdâr i Batagonia i chwilio am fywyd newydd, gwell. Mae Daniel yn cofnodi'r hanes, gan obeithio, ryw ddiwrnod, rhannu ei brofiadau â Twm, ei ffrind gorau, sy'n parhau i weithio yn y pwll glo. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845275211<br>£5.99 |
| **Ta-Ta Tryweryn!**<br>Gwenno Hughes | Tryweryn<br>Nofel fer wreiddiol hanesyddol yn adrodd stori'r genhedlaeth olaf o blant Ysgol Capel Celyn yn ymladd i achub eu cymuned rhag cael ei boddi dan ddŵr Llyn Tryweryn yn ystod yr 1960au. | Gomer<br>9781859026885<br>£6.99 |
| **Gwylliaid**<br>Bethan Gwanas | Antur • Hanes<br>Rywsut daw Rhys o Gaerdydd a Mari o sir Feirionnydd ar draws ei gilydd ger Dinas Mawddwy ar ôl mynd yn sownd mewn storm o eira. O'r cychwyn mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau gymeriad yn fawr. Yn sydyn o ganol yr eira, fe ddiflanna'r ddau i gyfnod y Gwylliaid yn 1554, a dyna ddechrau ar stori antur hynod. | Gomer<br>9781848517608<br>£6.99 |
| **Llestri'r Dylluan**<br>Alan Garner<br>(Bethan Gwanas) | Mabinogi • Hanes<br>Stori arswyd grefftus, sy'n dilyn trywydd tri o bobl ifanc sy'n cael eu gorfodi i ail-greu chwedl Blodeuwedd o'r Mabinogi. | Atebol<br>9781912261406<br>£7.99 |
| **Pedair Cainc y Mabinogi**<br>Siân Lewis | Mabinogi<br>Y Mabinogi yw chwedlau hynaf ac enwocaf Cymru, a'r Pedair Cainc yw straeon craidd y chwedlau hyn. Er iddyn nhw gael eu hysgrifennu ar femrwn tua wyth canrif yn ôl, bu storïwyr yn eu hadrodd ar lafar sawl canrif cyn hynny. Mae'r chwedlau wedi para cyhyd am eu bod yn dal i allu cydio yn y dychmyg â'u hud a lledrith, eu hantur, eu rhamant a'u rhyfeddodau unigryw. Argraffiad clawr meddal. | Rily<br>9781849670234<br>£6.99 |
| **Stori Cymru – Iaith a Gwaith**<br>Myrddin ap Dafydd | Hanes Cymru<br>Detholiad cryno o'r gyfrol *Stori Cymru: Hanes a Baledi*. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845277260<br>£1.00 |



## Antur

| | | |
|---|---|---|
| ***Alecs Rider***<br>Anthony Horowitz<br>(amryw addaswyr) | **Ysbïo • Dirgelwch** | |
| **2. Pic Blanc** | Mae Alecs Rider, pedair ar ddeg oed, yn ôl yn yr ysgol yn ceisio addasu i'w fywyd dwbl newydd, a gwaith cartref dwbl. Ond mae gan MI6 gynlluniau eraill ar ei gyfer. Gyda chymorth dim byd heblaw ID ffug a chasgliad newydd o ddyfeisiau cudd gwych, rhaid i Alecs ei gael ei hun i mewn i'r Academi. | Dref Wen<br>9781855969599<br>£7.99 |
| **3. Traeth Sgerbwd** | Ar ynys breifat ger Ciwba, mae'r Cadfridog Sarov gwallgof o Rwsia wrthi'n dyfeisio cynlluniau ffrwydrol i ailysgrifennu'r llyfrau hanes. Mae'n rhaid i Alecs Rider drechu'r Cadfridog ar ei ben ei hun, gyda help dim byd ond llond llaw o ddyfeisiau cywrain. | Dref Wen<br>9781855969605<br>£7.99 |
| **4. Cyrch Eryr** | Wrth iddo ymlacio yn ne Ffrainc mae Alecs Rider, o'r diwedd, yn gallu teimlo fel pawb arall – nes i ymosodiad sydyn, didrugaredd ar ei ffrindiau ei daflu'n ôl i mewn i fyd o drais a dirgelwch. Y tro hwn mae MI6 yn troi'u cefnau arno, ond mae Alecs yn benderfynol o ddilyn trywydd y bobl ymosododd ar ei ffrindiau. | Dref Wen<br>9781855969612<br>£6.99 |
| ***Triawd Amser*** | | |
| **Y Triawd Amser a Môr-ladron y Caribî**<br>Richard Everett, Julius Grütz, Thomas Platt<br>(Alun Ceri Jones) | Wrth i Gwion drio mynd â Llestr Aur hynafol yr ymerawdwr Monteswma o ddwylo'i gyfaill, mae grym cyfrinachol y llestr yn dwyn y Triawd Amser – Gradlon, Gwion a Garmon – 'nôl i'r 18fed ganrif, i fyd môr-ladron y Caribî. | Dalen (Llyfrau) Cyf<br>9780955136610<br>£6.99 |
| **Y Triawd Amser: Congo**<br>Hubertus Rufledt<br>(Alun Ceri Jones) | Dyma ail antur y Triawd Amser, yn teithio i grombil jyngl y Congo ar drywydd stori i'r papurau newydd am y bwci chwedlonol sy'n celu yn nyffryn N'gomo. | Dalen (Llyfrau) Cyf<br>9780955136672<br>£6.99 |
| **Gwag y Nos**<br>Sioned Wyn Roberts | **Dirgelwch • Hanes • Oes Fictoria • Tlodi**<br>Ers i Magi Bryn Melys symud i Wyrcws Gwag y Nos, mae hi wedi bod yn ddraenen yn ystlys Nyrs Jenat. Ond mae bod yn rebel yn beryglus, ac un bore mae pethau'n dechrau mynd o ddrwg i waeth i Magi. | Atebol<br>9781913245368<br>£6.99 |
| **Cipio'r Llyw**<br>Awen Schiavone | **Môr-ladron • Teithio • Antur**<br>Mae Hywel Dafydd, 15 oed, yn mynd ar ei fordaith gyntaf fel morwr. Daw yn gapten ar ei long ei hun gan fynd i drafferthion wrth gwrdd â môr-ladron. Mae'r stori'n mynd â ni i Sierra Leone ac ynysoedd Martinique a Barbados, ymysg llefydd eraill. | Y Lolfa<br>9781784614355<br>£6.99 |
| **Y Pibgorn Hud**<br>Gareth Evans | **Pla / Pandemig • Hanes • Antur • Rôl merch mewn cymdeithas**<br>Nofel antur wedi'i lleoli ym merw'r chweched ganrif ym Mhrydain yn y flwyddyn 552. Ynys ranedig, lawn tensiwn, sy'n bygwth ffrwydro fel llosgfynydd. Ynys sy'n simsanu ar ôl i'r pla sgubo drwy'r tir. Y cleddyf sy'n rheoli bellach, ac mae'n rhaid i bawb ddilyn y drefn. Yn enwedig plant. Yn enwedig merched. Pawb heblaw merch deuddeg oed o'r enw Ina. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845277413<br>£8.50 |
| **Meistres y Bwa Hir**<br>Linda Davies<br>(Efa Mared Edwards) | **Rhamant • Hanes • Hunaniaeth**<br>Wedi'i lleoli yn harddwch Bannau Brycheiniog, mae'r stori yn adrodd hanes Mari Owen, merch ddewr a phenderfynol ac un sy'n giamstar ar ddefnyddio'r bwa hir. Un diwrnod, pan mae Mari allan yn marchogaeth, daw o hyd i hen gist sy'n ei harwain hi at gyfrinachau a pherygl enbyd. | Atebol<br>9781910574409<br>£2.50 |
| **Siwrne yn y Gorffennol**<br>Sally Nicholls<br>(Mari George) | **Hanes • Dirgelwch • Rhyfel • Antur**<br>Mae Aled Tomos wrth ei fodd ag anturiaethau, felly mae'n llawn cyffro pan fydd ef a'i chwaer Rhian yn syrthio trwy wydr drych eu modryb ac yn glanio yn 1912. Mae gwibio ar hyd y lle mewn car gwefreiddiol o beryglus, darganfod creiriau hynafol a hyd yn oed ddal troseddwr neu ddau yn dipyn o hwyl! Ond mae angen iddyn nhw ddod o hyd i ffordd o fynd adre ... | Atebol<br>9781913245009<br>£3.50 |



| | | |
|---|---|---|
| **Dolffin Gwyn**<br>Gill Lewis | Anifeiliaid • Bwlio • Yr Amgylchedd<br>Mae Cara'n chwilio am noddfa ar long ei thad gan ei bod yn cael ei bwlio yn yr ysgol oherwydd ei dyslecsia, ac am ei bod yn poeni'n ddirfawr am ddiflaniad anesboniadwy ei mam. Mae Felix, sydd â pharlys yr ymennydd, yn ddig wrth ei rieni am symud i fyw ar yr arfordir gan ei fod yn colli cwmni ei ffrindiau yn Llundain. | Rily<br>9781849671514<br>£6.99 |
| **Gwalch y Nen**<br>Gill Lewis | Anifeiliaid • Galar • Bwlio • Cyfeillgarwch<br>Mae rhywbeth yn byw yn nyfnderoedd y goedwig … rhywbeth na welwyd ar fferm Callum ers dros ganrif. Mae Callum ac Iona yn addo cadw eu darganfyddiad hynod yn gyfrinach, ond a lwyddan nhw i gadw'r gwrthrych rhag perygl? Mae eu cytundeb yn newid eu bywydau am byth. | Rily<br>9781849671163<br>£6.99 |

## T. Llew Jones


| | | |
|---|---|---|
| **Cri'r Dylluan** | Nofel hanesyddol am Ferched Beca oedd yn mentro i dywyllwch y nos i chwalu tollbyrth er mwyn protestio yn erbyn trethu uchel ac annheg. | Gomer@Lolfa<br>9781843235194<br>£7.99 |
| **Ymysg Lladron** | Mae helyntion Twm Siôn Cati'n mynd o ddrwg i waeth. Er gwneud ei orau glas i helpu ffrindiau, mae ei fywyd mewn perygl unwaith eto wrth iddo wynebu ambell sefyllfa ddigon anffodus â rhai o ladron pen-ffordd mwyaf mileinig y wlad. Tybed a fydd e'n llwyddo i ddianc o drwbwl y tro hwn? | Gomer@Lolfa<br>9781848518384<br>£5.99 |
| **Dial o'r Diwedd** | Mae gan sawl un reswm dros fod eisiau dial ar Syr Tomos Llwyd, Ffynnon Bedr. Ond pwy fydd yn ddigon dewr i wneud hynny? Mae'r arwr, Twm Siôn Cati, yn ei chanol hi wrth iddo geisio gwneud ei orau dros ei deulu a'i ffrindiau yn ardal Tregaron. | Gomer@Lolfa<br>9781848518377<br>£5.99 |
| **Dirgelwch yr Ogof** | Mae pentref glan môr Cwmtydu yn llawn cyfrinachau. Ganol nos, mae'r lle'n fwrlwm i gyd wrth i Siôn Cwilt a'i griw o smyglwyr lanio llwythi o gontraband yn yr ogofâu ar hyd yr arfordir. Ond yn Ogof y Lleisiau mae'r dirgelwch mwyaf. Lleisiau pwy sydd i'w clywed yno? A phwy sy'n gwylio'r holl fynd a dod o ben y creigiau? | Gomer@Lolfa<br>9781848519480<br>£5.99 |
| **Y Gelyn ar y Trên** | Mae Guto ar bigau'r drain. Wedi'r cwbwl, nid bob dydd y mae trên y *Royal Scotsman* yn pasio drwy orsaf Maesgwyn! Ysgol neu beidio, mae'n rhaid iddo'i weld. Dim ond un cip bach ac fe fyddai'n fodlon. Ond caiff Guto fwy na chip, a does dim amdani ond rhedeg am ei fywyd. | Gomer@Lolfa<br>9781859020340<br>£6.99 |
| **Tân ar y Comin** | Hanes anturiaethau Tim, un o blant y sipsiwn. Mae Tim yn fachgen amddifad wedi i'w daid farw, heb ddim ond carafán, caseg, a'r ebol a anwyd ar y noson y bu farw'r hen ŵr. Ond ai un o blant y sipsiwn yw Tim mewn gwirionedd? | Gomer@Lolfa<br>9781785620850<br>£5.99 |
| **Trysor Plasywernen** | Dyma stori criw o fechgyn mewn ysgol lle nad yw popeth fel y mae'n mddangos, wrth i hanes trysor cudd afael yn nychymyg pawb. | Gomer@Lolfa<br>9781843235996<br>£6.99 |
| **Trysor y Môr-ladron** | Dyma antur sy'n mynd â ni o berfeddion de Cymru, i Loegr a thros y môr i'r gorllewin pell wrth i ni ddilyn hynt a helynt y môr-leidr Syr Harri Morgan a'i griw. Wrth wraidd yr holl gyffro mae trysor a gladdodd Harri yng nghanol y goedwig wrth odre mynyddoedd y Sierra Nevada. Ond llwyddodd y dihiryn Richard Llwyd a'i gyfaill Wil Ddu i gael hyd i fab Harri, gan sbarduno taith ryfeddol i hawlio'r trysor. Tybed pwy fydd yn llwyddo i ganfod y trysor gyntaf, a phwy fydd ar ôl i adrodd yr hanes? | Gomer@Lolfa<br>9781785620553<br>£6.99 |
| **Un Noson Dywyll** | Pwy oedd y dyn ofnus a ddaeth ar gefn ceffyl at dollborth Pont-y-Glyn yn hwyr un noson dywyll, stormus yn nyfnder gaeaf? Ofn pwy oedd arno fe, a sut y diflannodd e fel petai'r ddaear wedi'i lyncu? Pwy oedd piau'r baban a adawodd y dieithryn yng ngofal ceidwad y tolborth, a pham oedd llygaid llechwraidd yn gwylio'r tollborth ddydd a nos ar ôl hynny? | Gomer@Lolfa<br>9781848519459<br>£5.99 |

## David Walliams

| | | |
|---|---|---|
| **Peff**<br>David Walliams<br>(Elidir Jones) | Trachwant • Hiwmor • Teulu<br>Mae gan Mabli Mwyn bopeth y byddai ei angen erioed, ond mae hi eisiau mwy, mwy, mwy! Pan mae Mabli'n datgan ei bod hi eisiau PEFF, dim ond un broblem sydd … beth ydi PEFF? Stori hyfryd o hurt a gwirioneddol wallgo am rieni clên a'u merch gwbwl ffiaidd – a dyfodiad ffrwydrol y PEFF! | Atebol<br>9781912261963<br>£7.99 |
| **Dihangfa Fawr Taid**<br>David Walliams<br>(Dewi Wyn Williams) | Dementia • Yr Ail Ryfel Byd • Antur<br>Stori antur gyffrous a doniol am berthynas unigryw plentyn a'i daid a oedd yn beilot awyren Spitfire yn ystod yr Ail Ryfel Byd. | Atebol<br>9781912261246<br>£8.99 |
| **Y Mamoth Mawr**<br>David Walliams<br>(Dewi Wyn Williams) | Antur • Hanes • Cyfeillgarwch<br>Pan glywa Elsi, merch amddifad, fod mamoth o Begwn y Gogledd wedi cyrraedd yr amgueddfa yn Llundain, mae hi'n benderfynol o ddarganfod mwy! | Atebol<br>9781912261772<br>£9.99 |
| **Y Criw Canol Nos**<br>David Walliams<br>(Mared Llwyd) | Antur • Cyfeillgarwch<br>Ganol nos yw'r adeg pan mae'r rhan fwyaf o blant yn cysgu'n sownd … heblaw'r Criw Canol Nos! Megis dechrau mae eu hanturiaethau nhw bryd hynny wrth iddyn nhw grwydro coridorau tywyll yr ysbyty … | Atebol<br>9781912261352<br>£8.99 |
| **Rhyw Ddrwg yn y Caws**<br>David Walliams<br>(Mared Llwyd) | Bwlio • Perthynas ag anifail<br>Mae llond trol o bethau'n poeni Begw, druan. Mae ei llysfam yn afiach a diog ac mae bwli'r ysgol wrth ei bodd yn poeri ar ei phen. Ond yn waeth fyth, mae gan Bryn, y dyn byrgyrs afiach, gynlluniau ofnadwy ar gyfer ei llygoden fawr anwes hi … | Atebol<br>9781912261345<br>£8.99 |

## Nofelau

| | | |
|---|---|---|
| **Mis yr Ŷd**<br>Manon Steffan Ros | Rhagfarn • Cyfeillgarwch • Teuluoedd<br>Yn gefnlen i'r stori mae hanes cymuned o deithwyr sy'n symud eu carafannau i Gae Rhianfa. Dyma stori gref am ragfarnau, cyfeillgarwch a brawdoliaeth rhwng dynion ifanc. | CAA Cymru<br>9781845217006<br>£5.99 |
| **Gwennol**<br>Sonia Edwards | Bwlio • Teulu<br>Mae merch o'r enw Yvonne yn dechrau yn ysgol Eldra. Mae'r ddwy ferch 13 oed yn wahanol iawn, ac eto mae 'na debygrwydd ac agosatrwydd rhyngddynt. Mae gwirionedd y sefyllfa yn sioc i'r ddwy, ac yn newid eu bywydau. | CAA Cymru<br>9781845216986<br>£5.99 |
| **#Helynt**<br>Rebecca Roberts | Teulu • Camdriniaeth ddomestig • Bywyd ysgol<br>Iechyd ac anabledd • Bwlio • Trosedd<br>Mae colli'r bws i'r ysgol yn gallu newid dy fywyd di … Penderfyna Rachel fynd ar antur yn nhre'r Rhyl yn hytrach na mynd adref, gan ganfod ei hun mewn clwb nos ar lan y môr, lle daw sawl cyfrinach i'r wyneb. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845277765<br>£8.50 |
| **Brenin y Trenyrs**<br>Pryderi Gwyn Jones | Cyfeillgarwch • Dwyn • Bywyd yr arddegau<br>Adidas, Nike, Puma, Vans, Converse, Reebok … Dyma stori am fachgen sydd wrth ei fodd efo trenyrs! Mae o'n ysu am gael pâr o'r trenyrs Adidas gorau sydd yn siop sgidiau fwyaf cŵl y dre, Sgidlocyr. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845277338<br>£6.95 |
| **Kaiser y Trenyrs**<br>Pryderi Gwyn Jones | Cyfeillgarwch • Bywyd yr arddegau • Cynllwynio<br>Yn y dilyniant hwn i *Brenin y Trenyrs* mae'r brenin wedi stopio prynu bwyd yn yr ysgol er mwyn cynilo arian i brynu'r trenyrs mwyaf cŵl yn y byd. Yn ogystal â hyn mae ar dân eisiau ennill taith i bencadlys rhyngwladol cwmni Adidas yn yr Almaen! | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845277772<br>£6.95 |
| **Caffi Merelli**<br>G. R. Gemin<br>(Mared Llwyd) | Teulu • Mudo • Hunaniaeth • Salwch • Hanes<br>Mae Joe yn fachgen 14 mlwydd oed sy'n ymdrechu i gadw caffi'r teulu yn nhref Bryn Mawr ar agor, caffi a agorwyd am y tro cyntaf gan ei hen dad-cu a ddaeth i Gymru o'r Eidal yn ugeiniau'r ganrif ddiwethaf. | Atebol<br>9781912261550<br>£7.99 |




| | | |
|---|---|---|
| **Y Ferch Wyllt**<br>G. R. Gemin<br>(Mari George) | Teulu • Cyfeillgarwch<br>Mae bywyd Gemma yn llanast. Mae ei mam yn grac, mae ei thad yn y carchar, mae ei brawd yn cymysgu â chriw amheus, ac ar ben y cwbl i gyd, mae gan ei mam-gu fuwch yn yr iard gefn. Mae Gemma'n gwybod bod cuddio gyr o wartheg o fferm y Ferch Wyllt ar stad o dai yn beth gwallgo i'w wneud. | Atebol<br>9781912261567<br>£7.99 |
| **Dro ar ôl Tro**<br>Judi Curtin<br>(Eleri Huws) | Teulu • Cyfeillgarwch • Colled a galar<br>Mae bywyd yn ddigon cymhleth i Mali a Beth hyd yn oed cyn iddyn nhw gerdded drwy ddrws dirgel sy'n mynd â nhw i … haf 1984! Pan mae Beth yn sylweddoli y byddai ei mam, fu farw pan oedd hi'n ferch fach, yn fyw bryd hynny, mae'n RHAID iddi geisio dod o hyd iddi … | Gwasg Carreg Gwalch<br>9781845277109<br>£5.99 |
| **Dyddiadur Dripsyn**<br>Jeff Kinney<br>(Owain Siôn) | Cyfeillgarwch • Teulu • Bywyd ysgol • Hiwmor<br>Mae'r llipryn Greg Heffley yn cadw dyddiadur doniol gyda lluniau digri yn cofnodi ei ymdrechion i brofi ei aeddfedrwydd ar gychwyn blwyddyn newydd mewn ysgol uwchradd newydd. Wrth i boblogrwydd ei ffrind gorau, Roli, gynyddu, defnyddia Greg hyn er mantais iddo'i hun, gyda chanlyniadau smala iawn. | Rily<br>9781849672542<br>£6.99 |
| **Fi a Joe Allen**<br>Manon Steffan Ros | Cydberthynas • Teulu • Gobaith a siom • Chwaraeon<br>Does gan Marc ddim perthynas dda iawn â'i dad, ond mae'r ddau'n mynd efo'i gilydd bob dydd Sadwrn i weld tîm Dinas Bangor. Mae'r bachgen (Marc, wedi'i enwi ar ôl Mark Hughes) yn datblygu obsesiwn â Joe Allen, sydd, ym meddwl Marc, yn debyg i'w dad. Mae Marc a'i dad yn mynd ar eu gwyliau cyntaf gyda'i gilydd i Ffrainc i weld Cymru'n chwarae, a dyma lle mae'r ddau yn dod i adnabod ei gilydd yn iawn. | Y Lolfa<br>9781784615673<br>£5.99 |
| **Taith Ryfeddol a Gwyrthiol Ffredi Yates**<br>Jenny Pearson<br>(Endaf Griffiths) | Teulu • Cyfeillgarwch • Galar • Hiwmor<br>Ffeithiau yw popeth i Ffredi Yates. Ar ôl i'w fam-gu farw ac iddo ddarganfod bod ei dad biolegol yn byw yn ne Cymru, mae'n penderfynu dilyn y ffeithiau. Gyda Ben a Ianto, ei ffrindiau gorau, mae'n sleifio i ffwrdd ar antur i chwilio am ei dad. | Atebol<br>9781913245245<br>£6.99 |
| **Direidi Nicolas**<br>René Goscinny | Hiwmor • Straeon byrion<br>Mae Nicolas a'i fêts yn griw direidus, yn rhoi un pen tost ar ôl y llall i'w rhieni a'u hathrawon. Drygioni, helbul, a lot fawr o sbort, dyna yw Direidi Nicolas! | Dalen (Llyfrau) Cyf<br>9781906587925<br>£6.99 |
| **Heb Law Mam**<br>Heiddwen Tomos | Cyfeillgarwch ffug • Problemau teuluol • Bywyd yr arddegau • Bwlio<br>Nofel am Efa sy'n cael trafferthion gyda chriw o 'ffrindiau' yn yr ysgol, tra bod ei mam yn yr ysbyty. Does neb yn deall Efa'n iawn, heblaw Mam. | Y Lolfa<br>9781784618513<br>£5.99 |
| **Llechi**<br>Manon Steffan Ros | Teuluoedd • Cyfeillgarwch • Perthnasoedd • Cefndir cymdeithasol<br>Moesau • Camdriniaeth • Troseddu • Bywyd yr arddegau<br>Mae Gwenno wedi cael ei lladd. Gwenno – yr un oedd yn boblogaidd efo'r swots a'r bobol cŵl. Darganfuwyd ei chorff yn y chwarel, a bellach mae'r heddlu dros bob man ym Methesda, a phawb yn ceisio dod o hyd iddi. Ond does ganddyn nhw fawr o obaith, dim a hwythau'n gwybod y nesaf peth i ddim am sut ferch oedd hi go iawn. | Y Lolfa<br>9781784619558<br>£6.99 |
| **Sgramblo**<br>Huw Davies | Goresgyn anawsterau • Bwlio • Teulu • Bywyd ysgol • Chwaraeon<br>Mae'r 'disgybl perffaith' pedair ar ddeg mlwydd oed, Davidde (roedd ei rieni'n cael trafferth sillafu) yn byw gyda'i dad ar ôl i'w fam farw. Mae ei dad yn gwneud ei orau, ond pan fo prifathro newydd yn dechrau yn ei ysgol, mae'n cymryd yn erbyn Davidde, ac mae hwnnw'n cael bai ar gam. | Firefly Press Ltd<br>9781910080962<br>£6.99 |
| **Tom**<br>Cynan Llwyd | Bwlio • Gwrthdaro • Mewnfudwyr • Trais • Salwch<br>Mae Tom, 15 oed, yn byw mewn fflat gyda'i fam ac yn ffrindiau gyda dyn 81 oed sy'n byw yn y fflat uwchben. Dydy bywyd Tom ddim yn syml; caiff ei dynnu'n ddyfnach i mewn i fyd tywyll y gangs ac mae'r pethau mae'n eu gweld – a'u gwneud – yn peri gofid mawr iddo. Yn wir, mae ei fywyd mewn perygl! | Y Lolfa<br>9781784617455<br>£5.99 |
| **United**<br>Eirug Wyn | Nofel fer am anturiaethau dau fachgen sydd mewn trwbl yn yr ysgol byth a beunydd. | Y Lolfa<br>9780862436766<br>£3.95 |

| | | |
|---|---|---|
| **Powdwr Rhech!**<br>Eirug Wyn | Chwaraeon<br>Nofel fywiog am helyntion criw o gefnogwyr tîm pêl-droed Manchester United wrth iddynt geisio mynychu gêm bêl-droed yn Old Trafford er iddynt gael eu gwahardd rhag gwneud hynny. Dilyniant i *United.* | Y Lolfa<br>9780862435714<br>£3.95 |
| **Sgôr (Nofel T)**<br>Bethan Gwanas | Bywyd yr arddegau<br>Dyma hanes bachgen ifanc o ogledd Cymru sy'n symud i fyw i orllewin Cymru gan wynebu anawsterau amrywiol wrth iddo geisio cael ei dderbyn gan ei gyfoedion. | Y Lolfa<br>9780862436155<br>£3.95 |
| **Llinyn Trôns**<br>Bethan Gwanas | Bywyd ysgol • Goresgyn anawsterau<br>Yn y nofel hon dilynwn hynt a helynt criw o bobl ifanc ar gwrs tridiau mewn canolfan awyr agored ar ôl iddyn nhw sefyll eu harholiadau TGAU. Mae'r tridiau yn agoriad llygad i Llion Jones, neu'r Llinyn Trôns, ac mae'n dysgu llawer amdano'i hun ac am bobl eraill hefyd. | Y Lolfa<br>9780862435202<br>£4.95 |

## Cyfresi

| | | |
|---|---|---|
| ***Anturiaethau Tintin***<br>Hergé<br>(Dafydd Jones) | | |
| **Dirgelwch yr Uncorn** | Mae Tintin yn dod o hyd i fodel o long ryfel *Yr Uncorn* y bu un o gyndeidiau Capten Hadog yn llyngesydd arni 400 mlynedd yn ôl. Ym mol y llong mae cliw sy'n arwain at drysor coll y môr-leidr creulon, Rhaca Goch – a chliw y mae criw o ddihirod diegwyddor yn barod i ladd er mwyn cael gafael arno! | Dalen (Llyfrau) Cyf<br>9781913573010<br>£6.99 |
| **Teml yr Haul** | Ar ôl i'r Athro Efflwfia gael ei herwgipio a'i ddwyn i deml anghysbell i'r haul fry yn uchelderau'r Andes, mae Tintin a'i ffrindiau yn anelu am Dde America er mwyn ceisio dod o hyd iddo. Ond eu ffawd yw bod yn garcharorion i'r Incas, a'u tynged yw marwolaeth – tan i'r goleuni ildio i'r tywyllwch ... | Dalen (Llyfrau) Cyf<br>9781906587895<br>£6.99 |
| **Trysor Rhaca Goch** | Mae Tintin a'i ffrindiau ar eu ffordd i'r Caribî i chwilio am drysor coll y môr-leidr Rhaca Goch, a llong *Yr Uncorn*. Er dod o hyd i weddillion y llong, does dim golwg o drysor Rhaca Goch. Y cyfan sydd ar wely'r môr yw hen gist yn llawn dogfennau – dogfennau sy'n datgelu newyddion syfrdanol! | Dalen (Llyfrau) Cyf<br>9781913573027<br>£6.99 |
| **Alaw'r Dŵr** | Mae Tintin ar antur yn Tsieina, ac o'i gwmpas mae pawb yn cael eu taro gan y gwenwyn gwallgo. Wrth iddo dreiddio ymhellach i greisis cythryblus y wlad, mae gwrthdaro rhwng Tsieina a Siapan yn rhoi ei fywyd yn y fantol a'i ben ar y bloc – yn llythrennol. | Dalen (Llyfrau) Cyf<br>9781906587673<br>£6.99 |
| **Rhith Saith Rhyfeddod** | Mae salwch difrifol yn taro saith gwyddonydd fu ar daith i'r Andes i chwilio am feddrod brenin yr Inca, Rascar Capac. Tybed ai dialedd yr Inca sydd ar waith? Yr unig gliw yw saith pelen grisial. Ond mae'r dirgelwch yn troi'n fwy astrus fyth pan mae'r Athro Efflwfia yn diflannu – a Tintin a'r Capten Hadog yw'r unig rai all ddod o hyd iddo. | Dalen (Llyfrau) Cyf<br>9781906587857<br>£6.99 |
| **Tintin ar Grib Tibet** | Mae Tsiang, ffrind Tintin, wedi cael ei ladd mewn damwain awyren ym mynyddoedd yr Himalaia. Ond yn dilyn breuddwyd ryfedd, mae Tintin yn sicr fod Tsiang yn dal yn fyw. Gyda'r Capten Hadog a Milyn yn gwmni, mae Tintin yn teithio i'r mynyddoedd, â'r nod o ffeindio Tsiang doed a ddelo, ond mae rhywun – neu rywbeth – arall wedi dod o hyd iddo'n gynta! | Dalen (Llyfrau) Cyf<br>9781906587833<br>£6.99 |
| ***Asterix***<br>René Goscinny<br>ac Albert Uderzo<br>(Alun Ceri Jones) | | |
| **Asterix a Cleopatra** | Er mwyn profi bod ysblander yr Aifft yn fyw ac yn iach, mae Cleopatra eisiau adeiladu palas i Cesar o fewn tri mis. Ei phensaer Todanjeris sy'n gorfod gwneud y gwaith – ond mae angen help Asterix, Obelix a Gwyddoniadix i ddod â'r maen i'r wal. Yn yr Aifft, mae trwyn Cleopatra yn gadael ei ôl ar y Galiaid – a nhw'n gadael eu hôl ar y Sffincs. | Dalen (Llyfrau) Cyf<br>9781906587741<br>£6.99 |



| | | |
|---|---|---|
| **Asterix a Tharian y Llyw Olaf** | Pan orchfygwyd Gorgynydyr, Llyw Olaf y Galiaid, gan Iŵl Cesar, ildiodd ei arfau wrth draed y Rhufeiniwr. Gyda'r Galiaid dal yn giwed drafferthus, mae Cesar yn bwriadu dangos pwy yw'r bos trwy gael ei gario ar ben tarian y Llyw Olaf. Ond ble mae'r darian? Mae'n ras wyllt rhwng y Galiaid a'r Rhufeiniaid i ddod o hyd iddi. | Dalen (Llyfrau) Cyf<br>9781906587949<br>£6.99 |
| **Asterix a'r Pwt Bach Twt** | Mae babi yn glanio ar stepen drws Asterix, ond o ble ddaeth y pwt? Does gan Asterix nac Obelix ddim profiad o fagu babi, felly mae croeso i bawb sy'n cynnig gwarchod, neu sydd am gychwyn cylch Tibiet Mihi. Ond daw'n amlwg bod angen gofal wrth ddewis pwy sy'n cael gwarchod y pwt bach twt. | Dalen (Llyfrau) Cyf<br>9781913573003<br>£6.99 |
| **Asterix a'r Argoel Fawr** | Yng nghanol storm o fellt a tharanau, mae proffwyd dirgel yn cyrraedd pentre Asterix. Gan honni y gall ddarogan y dyfodol, mae'r Galiaid yn credu popeth mae'n ei ddweud, ac mae ymdrechion Asterix i ddarbwyllo'i ffrindiau i weld drwy'r twyll yn ofer. | Dalen (Llyfrau) Cyf<br>9781906587666<br>£6.99 |
| **Asterix a'r Cryman Aur** | Mae'n argyfwng ym mhentre'r Galiaid! Mae Gwyddoniadix wedi torri ei gryman aur llawn hud! Dyma Asterix ac Obelix yn troi am ddinas Lwtetia i brynu cryman newydd o weithdy Torchillewix. Ond mae Torchillewix wedi diflannu, ac yn wyneb masnachwyr y farchnad ddu, tybed ddaw ein harwyr o hyd iddo a sicrhau cryman aur newydd sbon i Gwyddoniadix? | Dalen (Llyfrau) Cyf<br>9781906587420<br>£6.99 |
| **Asterix a'r Snichyn** | Mae brawdgarwch Asterix a'i gydwladwyr yn drech na chynllun Cesar a'i Senedd i'w dofi, a hynny er gwaethaf cynllwynion creulon Mìrùnus Gamhlus i greu rhwygiadau ymhlith y Galiaid. | Dalen (Llyfrau) Cyf<br>9781906587413<br>£6.99 |
| *Cyfres Halibalŵ*<br>(Canolig) | | |
| **Syniadau Slei – Anaddas i Oedolion!**<br>Mari Lovgreen | Ar ddwy fferm ymhell o bob man, mae'r cefndryd Wil a Dot yn byw. Bob bore ar y bws i'r ysgol mae'r ddau'n gwneud nodiadau yn eu llyfr syniadau slei ac yn meddwl am y triciau mwyaf bendigedig a chreulon yn y byd. | CAA Cymru<br>9781845217051<br>£5.99 |
| **Teulu Tŷ Bach**<br>Eurig Salisbury | Tŷ Bach oedd enw'r lle, ond nid tŷ bach mohono. Byddai pobl weithiau'n cerdded heibio, yn oedi wrth weld enw'r tŷ ac yn chwerthin yn uchel, cyn cerdded i ffwrdd yn ddiolchgar eu bod yn byw mewn tai LLAWER MWY. Ond roedd Tŷ Bach yn fach ac yn hardd ac yn dwt ac, yn fwy na dim, roedd yn glyd. | CAA Cymru<br>9781845217044<br>£5.99 |
| **Y Tocyn Raffl**<br>Anni Llŷn | Efeilliaid deg oed yw Loti a Jac, ac er eu bod yn hollol wahanol, maen nhw'n gweithio'n well gyda'i gilydd nag ar wahân, yn union fel brwsh a phast dannedd. Mae eu tad yn ennill raffl un diwrnod, sy'n golygu bod y teulu cyfan yn cael mynd i aros mewn parc gwyliau yn ne Cymru. | CAA Cymru<br>9781845217068<br>£5.99 |
| *Cyfres Halibalŵ*<br>(Uwch) | | |
| **Iârgyfwng!**<br>Gwennan Evans | Mae Ned, mab fferm drygionus, yn mynd i aros gyda'i gefnder, Osian, a'i fodryb a'i ewythr yn y ddinas. Mae Osian yn fachgen da, taclus ac ufudd, ac mae drygioni ac annibendod Ned yn ei ddigalonni a'i wylltio o'r diwrnod cyntaf iddo gyrraedd eu cartref. | CAA Cymru<br>9781845217082<br>£5.99 |
| **Project Poli**<br>Gwenno Mair Davies | Dydy Poli ddim yn hapus o gwbl fod ganddi waith cartref i'w wneud dros wyliau'r haf. Ond ar ôl treulio wythnos gyntaf y gwyliau yn chwarae gêm dditectif ar y cyfrifiadur, mae hi'n cael syniad penigamp. | CAA Cymru<br>9781845217075<br>£5.99 |
| **Tŷ Tomi Treorci**<br>Dafydd Llewelyn | Mae Tomi, y twrch daear, a'i deulu yn paratoi i ymfudo. Dydy eu cartref ddim yn ddiogel i fyw ynddo bellach wrth i beiriannau mawr adeiladu stad o dai crand ar dir Cae Sidan. Ond mae Tomi yn benderfynol o wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau nad ydyn nhw'n colli eu cartref. Mae'n gweld llygedyn o oleuni ym mhen pella'r twnnel pan ddaw'n ffrindiau gydag Elisabeth, merch y fforman. | CAA Cymru<br>9781845217099<br>£5.99 |
| *Cyfres Pen Dafad* | | |
| **Alffi**<br>Mared Lewis | Mae Alffi Jones yn gymeriad annwyl sy'n tynnu strach a miri yn ei sgil pob man yr âi. Mae tlodi a chaledi cymdeithasol yn gefnlen i'w fywyd, ond ei bersonoliaeth sy'n pefrio drwy'r nofel, a'i agwedd bositif at fywyd sy'n gyrru'r stori. | Y Lolfa<br>9781847714572<br>£3.95 |

| | | |
|---|---|---|
| **Aminah a Minna**<br>Gwyneth Glyn | Stori ffraeth yn cael ei hadrodd yn y person cyntaf, sy'n sôn am dreialon bachgen sy'n dechrau perthynas â merch o dras Asiaidd – er gwaetha'r erledigaeth. | Y Lolfa<br>9780862437428<br>£2.95 |
| **Asiant A**<br>Anni Llŷn | Mae Alys yn meddwl ei bod hi wedi cael ei magu'r un ffordd â phob plentyn arall, ond pan mae hi'n un ar ddeg mae hi'n darganfod bod ei mam wedi bod yn ei hyfforddi i fod yn ysbïwr. | Y Lolfa<br>9781847718402<br>£3.95 |
| **Asiant A: Her Ll**<br>Anni Llŷn | Mae Alys yn cael ei gorfodi i gymryd rhan mewn cystadleuaeth sy'n mynd i wthio ei galluoedd i'r eithaf. Trwy ateb y posau, cracio'r codau a chydweithio, a lwyddith hi a'i chyd-gystadleuwyr i ddal y lladron? | Y Lolfa<br>9781784617073<br>£4.99 |
| **Baba Hyll**<br>Manon Steffan Ros | Roedd mam Huw yn llawer rhy brysur i'w nôl o dŷ ffrind a doedd e ddim wedi mynd â'i feic, felly doedd dim amdani ond cerdded ar hyd y ffordd a arweiniai i fynydd Moel y Ci a chamu i'r goedwig. Fel arfer, fe fyddai adre mewn dim o amser, ond wrth iddo gofio am straeon ei fam am Baba Hyll, sef gwrach a drigai yn y goedwig, daeth profiad rhyfedd iawn i'w ran ... a doedd dim dianc. | Y Lolfa<br>9781847714541<br>£3.95 |
| **Bach y Nyth**<br>Nia Jones | Mae Dafydd, prif gymeriad y nofel, yn bymtheg oed, ond dydy e ddim wedi tyfu'n gorfforol fel bechgyn eraill. Mae'n edrych fel disgybl Blwyddyn Saith ac mae ei gyd-ddisgyblion yn gwneud hwyl am ei ben. Ymdrech Dafydd i drawsnewid ei gorff yw prif elfen y stori. | Y Lolfa<br>9780862437008<br>£2.95 |
| **Breuddwyd Siôn Ap Rhys**<br>Haf Llewelyn | Nofel hanesyddol am ddau frawd yn byw mewn tlodi gyda'u ewythr creulon ac yn ceisio dod o hyd i wybodaeth am eu mam a gyhuddwyd o fod yn wrach, ac a garcharwyd. | Y Lolfa<br>9781847718419<br>£3.95 |
| **Ça va, Safana**<br>Cathryn Gwynn | Nofel fer, fywiog am helyntion merch ifanc o Lydaw sy'n dod i aros gyda bachgen o Gymru ar daith gyfnewid; mae'n cyrraedd ar ganol digwyddiad pwysig ym mywyd Rob, sef Brwydr y Bandiau. | Y Lolfa<br>9780862437893<br>£2.95 |
| **Carirhys@hotmail.com**<br>Mari Stevens | Nofel fer sy'n gasgliad o negeseuon e-bost gan ddisgyblion ysgol at ei gilydd ac at eu ffrind sydd yn yr ysbyty. | Y Lolfa<br>9780862437886<br>£2.95 |
| **Ceri Grafu**<br>Bethan Gwanas | Nofel am ferch yn ei harddegau sy'n teimlo bod pawb a phopeth yn ei herbyn, a hynny'n bennaf am na chaiff chwarae i dîm pêl-droed yr ysgol gan ei bod hi'n ferch. Ond mae ei chymydog yn ei hannog i ddyfalbarhau, ac mae'r canlyniadau'n ardderchog. | Y Lolfa<br>9780862436926<br>£2.95 |
| **Haciwr**<br>Hywel Griffiths | Mae rhywun yn hacio i mewn i gyfrifiaduron y brifysgol ac yn rhoi adeilad yr Adran Ffiseg ar dân er mwyn cael gwared ar wybodaeth bwysig. | Y Lolfa<br>9781847717443<br>£3.95 |
| **Iawn Boi?;-)**<br>Caryl Lewis | Mae cyfnod paratoi ar gyfer arholiadau TGAU yn gyfnod digon annifyr ar y gorau ond mae'r cyfnod hwn i Catrin, prif gymeriad y nofel, hyd yn oed yn fwy helbulus. | Y Lolfa<br>9780862436995<br>£2.95 |
| **Isio Bet?**<br>Bedwyr Rees | Dyma stori criw o hogia, John, Jason a Pits, sy'n cicio'u sodlau yn ceisio llenwi'u hamser yn eu tre ddiddigwyddiad. Mae'r criw yn mwynhau betio, ond mae pethau'n mynd ymhellach na maen nhw'n ei ddisgwyl! | Y Lolfa<br>9780862438050<br>£2.95 |
| **Jac**<br>Guto Dafydd | Mae Jac yn darganfod corff marw yn y twyni tywod ac yn benderfynol o fynd at wraidd y llofruddiaeth trwy helpu Jim, y ditectif. | Y Lolfa<br>9781847718976<br>£3.95 |
| **Jibar**<br>Bedwyr Rees | Chwaraeon<br>Stori anhygoel am ddau chwaraewyr rygbi dawnus sy'n cael eu twyllo i ymuno â thîm rygbi ffug ac yn gorfod dibynnu ar eu hysbryd mentrus i geisio dal aelodau o griw o smyglwyr cyffuriau. | Y Lolfa<br>9780862436919<br>£2.95 |
| **Mewn Limbo**<br>Gwyneth Glyn | Dyslecsia<br>Dyddiadur chwerw-felys bachgen yn ei arddegau sydd ag anawsterau dysgu, sy'n gocyn hitio i bawb. Tybed sut hwyl gaiff e yn y clwb drama? | Y Lolfa<br>9780862436933<br>£2.95 |
| **Noson Boring i Mewn**<br>Alun Jones a Nia Royles (goln) | Casgliad o pump o straeon byrion gan awduron amrywiol ar y thema cylchoedd, yn cynnwys hanesion am ddynion tân, hunllefau, dial, unigrwydd a chariad cyntaf. | Y Lolfa<br>9780862437015<br>£2.95 |
| **Noson Wefreiddiol i Mewn**<br>Alun Jones (gol.) | Colled<br>Pump o straeon byrion gan awduron amrywiol am fywyd amrywiol pobl ifanc gyda'r thema o golled ym mhob stori. | Y Lolfa<br>9780862438364<br>£2.95 |

| | | |
|---|---|---|
| **Pen Dafad**<br>Bethan Gwanas | Nofel fer fywiog a doniol sy'n sôn am anturiaethau bachgen sy'n trawsnewid i fod yn ddafad bob nos | Y Lolfa<br>9780862438067<br>£3.99 |
| **Pen yr Enfys**<br>Leusa Fflur Llywelyn | Yng ngwlad ddychmygol Pen yr Enfys mae rhwyg ymhlith haenau o bobol, ond trwy gyfeillgarwch Meical y pysgotwr, a Siani, merch y Prif Dderwydd, ynghyd â thrasiedi deuluol, mae'r rhwyg yn diflannu. | Y Lolfa<br>9781847713605<br>£3.95 |
| **Rhyfel Cartref**<br>Gwenno Hughes | Cariad cyntaf • Tor priodas<br>Mae Manon wedi cael sawl profiad anodd, wedi dioddef ysgariad poenus ei rhieni, ac o ganlyniad yn byw gyda thaid a'i mam mewn tlodi, ond mae'n medru rhannu pob dim gyda'i ffrind Kirsty. | Y Lolfa<br>9781847713490<br>£3.95 |
| **Sbinia**<br>Bedwyr Rees | Mae Gari yn dipyn o fwli ac yn arweinydd naturiol, a chael goruchafiaeth yw ei nod. Ond ar ei feic modur yn gwisgo crys rygbi coch daw'r deheuwr Jones. Mae hwn yn barod i gipio'r ferch, y sylw, y mawl a'r bri dan drwyn Gari. Mae'r stori, o ganlyniad, yn llawn o hunanhyder a hyfdra bechgyn ieuanc. | Y Lolfa<br>9780862437152<br>£2.95 |
| **Sgwbidŵ Aur**<br>Caryl Lewis | Chwaraeon<br>Druan â Colin, mae ganddo waith cwrs i'w gwblhau, mae'n ffansïo Claire, ond ydy hi'n teimlo'r un fath tuag ato ef? Mae ei ffrind gorau, Lee, angen ei gefnogaeth, a pham fod Al yn galw mor aml i weld Mam? Mae bywyd yn gymhleth! | Y Lolfa<br>9780862437879<br>£2.95 |
| **Stori Sara**<br>Shoned Wyn Jones | Tor priodas<br>Mae rhieni Sara wedi gwahanu ac mae ei thad bellach yn cyd-fyw gyda'i hathrawes mathemateg. Dyw Sara ddim yn hapus am hyn, er ei bod yn ddigon bodlon bod ei mam wedi ailbriodi. | Y Lolfa<br>9781847710475<br>£3.95 |
| **Cyfres Pen Dafad: Uffar o Gosb**<br>Sonia Edwards | Mae Dylan Pritchard yn dioddef drwgdeimlad criw o fechgyn oherwydd ei dad. Mae Pritch Ploncar, fel y gelwir ei dad, yn hoff iawn o gwyno wrth yr heddlu am hwn, llall ac arall. Mae'n gwylltio'n lân pan ddaw o hyd i nodwyddau brwnt yn y parc ac mae'n benderfynol o wneud rhywbeth ynghylch y sefyllfa. Tybed beth fydd canlyniadau'r cwyno? | Y Lolfa<br>9780862438340<br>£2.95 |
| **Wel, Gymru Fach**<br>Lleucu Roberts | Nofel yn sôn am wrthdaro sy'n digwydd yng Nghymru heddiw – rhwng y de a'r gogledd, rhwng Saeson a Chymry – ond hefyd yn dangos sut y mae'r cymeriadau'n datrys y gwahaniaethau hyn ac yn cydweithio pan fo angen. | Y Lolfa<br>9781847713483<br>£3.95 |
| **Y Dyn Gwyrdd**<br>Gareth F. Williams | Un tro – yn reit ddiweddar, a dweud y gwir – roedd bachgen ifanc o'r enw Derwyn yn byw efo'i rieni mewn hen fwthyn yn y goedwig. Dysgai ei fam yn yr ysgol gynradd a'i dad yn yr ysgol uwchradd. Anodd iawn oedd dweud pa un ohonyn nhw oedd yn cwyno fwyaf. | Y Lolfa<br>9781847714558<br>£3.95 |
| *Cyfres Strach* | | |
| **Coed Du**<br>Gwenno Huws | Ail Ryfel Byd • Hanes • Antur<br>Mae carcharor rhyfel Almaenig yn dianc o'r gwersyll ger Pen-y-bont ar Ogwr. Dau frawd digon cyffredin yw Dyfrig a Moi sy'n byw gyda'u mam ym mhentref Bont Ddu. Fel llawer o ddynion eraill y pentref, mae eu tad yn ymladd yn Ffrainc, ond pwy sy'n cuddio yn y goedwig gerllaw'r pentref? | Gomer@Atebol<br>9781848514874<br>£5.99 |
| **Dirgelwch Llys Undeg**<br>Helen Emanuel Davies | Teulu • Antur<br>Gan fod Mam yn brysur yn gweithio ac yn teithio gyda'i chariad newydd, mae Tomos wrth ei fodd ei fod yn cael aros gyda Mam-gu a Taid yn eu cartref newydd dros yr haf, ond o bryd i'w gilydd mae e'n cael teimlad annifyr fod rhywun yn ei wylio neu hyd yn oed yn ei gyffwrdd. Yn ôl y si lleol, mae Llys Undeg dan gwmwl, ac mae Tomos yn penderfynu darganfod rhagor am ei hanes. | Gomer@Atebol<br>9781848517592<br>£4.99 |
| **Dirgelwch y Bont**<br>Hywel Griffiths | Hanes Cymru<br>Holl gyffro cyfnod Owain Glyn Dŵr mewn nofel i blant. Cawn hanes ymweliad criw o blant o Gaerdydd a Lerpwl ag ardal yng nghanolbarth Cymru. | Gomer@Atebol<br>9781848512344<br>£5.99 |
| **Gwalia**<br>Llŷr Titus | Cawn ddilyn taith Elan a'i ffrindiau ar long ofod wrth iddynt deithio o blaned i blaned. Ond tybed beth fydd yn digwydd wrth i'r llong gyrraedd planed newydd sbon? Mewn byd lle nad yw popeth yn ymddangos fel y dylent daw Elan ar draws cymeriadau rhyfedd iawn ar hyd y daith. | Gomer@Atebol<br>9781785620492<br>£4.99 |

| | | |
|---|---|---|
| **Hylc o Helynt**<br>Gwen Redvers Jones | Mae Lle-od-yng-Nghornwy yng Nghymru wedi'i efeillio â Strach O'Lé yn y Swistir ac wrth gysylltu'r ddau le hynod y canlyniad yw nofel ysgafn, ffantasïol i blant. | Gomer@Atebol<br>9781848513037<br>£4.99 |
| **Sêr y Nos**<br>Martyn Geraint | Nofel fywiog am griw o bobl ifanc sy'n aelodau o fand cyffrous iawn. Yn ogystal â bod yn gantorion ac yn gerddorion cyfoes sy'n teithio'r wlad yn cynnal gigs, mae'r band hefyd yn gweithio fel ditectifs, dan oruchwyliaeth eu pennaeth cyfrin, BB. Mae gan aelodau'r band bwerau goruwchnaturiol sydd o fantais fawr iddyn nhw wrth fynd i'r afael â drwgweithredwyr. | Gomer@Atebol<br>9781848512467<br>£4.99 |
| **Yr Allwedd Aur**<br>Eurgain Haf | Ffantasi • Antur<br>Y flwyddyn yw 2050. Mae Cymru mewn trafferthion. Mae'r bae yn boddi; y Senedd yn suddo a'r chwareli'n cael eu defnyddio fel ffatrïoedd i chwalu cof y Cymry. Mae Ynys Môn wedi hen ddiflannu oddi ar y map. De Orllewin Prydain yw'r enw ar Gymru bellach. Mae ffyrdd uwchddaearol yn cael eu hadeiladu ym mhobman fel bod pobl yn gallu osgoi Cymru yn llwyr. | Gomer@Atebol<br>9781848512863<br>£4.99 |
| **Gedonia**<br>Eurgain Haf | Ffantasi • Antur • Chwedloniaeth • Hud a lledrith<br>Y flwyddyn yw 2051, ac mae dyfodol Cymru yn y fantol unwaith eto. Mae'r grym tywyllaf a chreulonaf oll, Gedon Ddu, yn ei ôl, ac mae ei fryd ar orchfygu Cymru a'r Hudfyd, gyda chymorth ei weision ffyddlon. Ond sut fydd e'n mynd ati i wneud hyn?<br>Dilyniant i *Yr Allwedd Aur.* | Gomer@Atebol<br>9781848515659<br>£4.99 |
| **Yr Haf Gorau Erioed**<br>Gwenno Hughes | Antur<br>Mae'r suon am drysor, cyffuriau a chyfrinachau o'r gorffennol yn peri i wyliau'r haf wibio heibio – yr haf gorau erioed! | Gomer@Atebol<br>9781848519930<br>£4.99 |
| ***Cyfres Whap!*** | | |
| **Adref heb Elin**<br>Gareth F. Williams | Arswyd • Cyffro<br>Dydi Elin ddim yn cyrraedd adref o'r ysgol un diwrnod. Ond beth sydd wedi digwydd iddi? | Gomer@Lolfa<br>9781843236818<br>£6.99 |
| **Angel Pen Ffordd**<br>Sonia Edwards | Mae Meleri, Anwen, Linda Jên ac Arwyn yn edrych ymlaen at lwyfannu'r sioe gyntaf yn eu hysgol berfformio – 'Angel Pen Ffordd'. Tybed pwy gaiff pa ran? | Gomer@Lolfa<br>9781843237792<br>£2.00 |
| **Blas Cas**<br>Ion Thomas | Cyffuriau<br>Dyma stori antur am fachgen ifanc o Gasnewydd a'i ffrindiau sydd yng nghanol trybini oherwydd gwaith arbrofi gan ei dad. Mae tad Dafydd yn wyddonydd sy'n treialu cyffur newydd sbon sy'n gallu trwsio neu adnewyddu a chryfhau cymalau – gwaith arloesol. | Gomer@Lolfa<br>9781843237808<br>£4.99 |
| **Eira Mân, Eira Mawr**<br>Gareth F. Williams | Pur anaml y ceir Nadolig gwyn yn y dref fechan ar arfordir Gwynedd gan fod y dref mor agos i'r môr. Ond eleni, daw'r eira yn annisgwyl cyn i neb fedru dianc o'r dref. | Gomer@Lolfa<br>9781843238294<br>£6.99 |
| **Ffêc Tan, Rissole a Tships**<br>Caryl Lewis | Nofel yn ymwneud â byd rhyfedd un ferch sydd wrth ei bodd yn gwisgo lliw haul ffug, gwneud sudoku a mwynhau byw uwchben siop sglodion! | Gomer@Lolfa<br>9781843236863<br>£4.99 |
| **Ffrindiau**<br>Gareth F. Williams | Pwy yw'r llais sy'n gweiddi 'Blaaan...tos' yn y nos? Pwy yw'r ysbrydion sy'n llechu yng nghornel yr atig? Dyma'r cwestiynau mae Tegwen yn ceisio'u datrys pan mae'n ymweld â'i thad yn Stryd y Parc. Beth yn union ddigwyddodd yma flynyddoedd maith yn ôl? | Gomer@Lolfa<br>9781843239734<br>£5.99 |
| **Mae'n Anodd Weithiau**<br>Ioan Kidd | Cydberthynas<br>Mae Ems yn cyfaddef wrth ei ffrind, Angharad, ei fod yn hoyw a thrwy ei llygaid hi cawn wybod mwy am fywyd ysgol a bywyd teuluol y cymeriadau. | Gomer@Lolfa<br>9781848510654<br>£5.99 |
| **Pentrenadredd**<br>Gerrard Morgan | Ar ôl cyfnod hir yn ddi-waith, mae tad Wyn yn cael swydd mewn ffatri yn Ffynnon Oer. Yn fuan wedyn maen nhw'n cael ymweliad annisgwyl gan berchennog y ffatri, Handel Clement, ac mae Elin, un o blant yr ardal, yn rhybuddio Wyn am ormes hudol Clement ar y dref. Ai dyna'r rheswm pam mae cynifer o bobl yr ardal yn ymddwyn yn rhyfedd? | Gomer@Lolfa<br>9781848517455<br>£5.99 |

| | | |
|---|---|---|
| **Tebyg at ei Debyg?**<br>Delyth George | Nofel seicolegol<br>Chwilio am lechen lân y mae Owain a'i deulu wrth symud o dawelwch cymharol Cwm Gwendraeth i fwrlwm dinas Caerdydd. Ond wedi symud i rif 45, Gerddi Plasturton, mae'n amlwg fod gafael y gorffennol yn gryf ... | Gomer@Lolfa<br>9781848514768<br>£5.99 |
| *Cyfres yr Onnen* | | |
| **Aderyn Brau**<br>Mared Llwyd | Perthynas rhiant a phlentyn<br>Mae *Aderyn Brau* yn dilyn hanes Megan wrth iddi orfod symud o gefn gwlad i ddinas Abertawe, a'r problemau sy'n codi yn sgil hynny – newid ysgol, rhieni'n gwahanu, ardal anghyfarwydd. Ond yn raddol mae'n sylweddoli nad yw pethau'n wael i gyd wrth iddi greu perthnasau newydd a datgelu cyfrinach mae ei mam wedi'i chadw oddi wrthi. | Y Lolfa<br>9781847711908<br>£5.95 |
| **Bwystfilod a Bwganod**<br>Manon Steffan Ros | Mae Hilda, Tom a Hywel yn dod at ei gilydd er mwyn helpu Teilo Siencyn, Prif Weinidog Cymru, i ddal bwystfilod fel y Leiac sy'n achosi anhrefn llwyr yn y wlad. Diolch byth fod gan Hywel hen lyfr o'r enw 'Bwystfilod a Bwganod'! | Y Lolfa<br>9781847712264<br>£5.95 |
| **Cam wrth Gam**<br>Mared Llwyd | Ar ôl damwain beic erchyll mae Cain yn ysgrifennu dyddiadur i helpu Lleu, ei efaill, i gofio am ei fywyd cyn y ddamwain. | Y Lolfa<br>9781847718396<br>£5.95 |
| **Codi Bwganod**<br>Rhiannon Wyn | Mae Erin newydd symud i fyw mewn hen blasty crand sydd yn cael sylw ar raglen deledu *Dy Dŷ*. Mae'r cyflwynydd, Robyn Rici, a Sara, mam Erin, yn dod yn ffrindiau agos. Ond wyddon nhw ddim fod gan Erin ffrind hefyd. Roedd Madam Petra'n mynd i sicrhau fod Erin yn cael chwarae teg, yn yr ysgol a gartref, doed a ddelo. | Y Lolfa<br>9781847710741<br>£5.95 |
| **Diffodd y Sêr**<br>Haf Llewelyn | Rhyfel Byd Cyntaf • Hedd Wyn<br>Nofel hanesyddol, wedi'i seilio ar hanes Hedd Wyn ac mae'r Rhyfel Byd Cyntaf yn gefndir i'r digwyddiadau. | Y Lolfa<br>9781847716972<br>£5.95 |
| **Ergyd drwy Amser**<br>Elgan Philip Davies | Mae'r stori'n dechrau'n gyffrous gyda llofruddiaeth Juan Borgia cyn y datgelir i'r darllenydd gael ei dwyllo a bod Alun, y prif gymeriad, mewn gwirionedd yn chwarae'r gêm gyfrifiadurol 'Assassin's Creed'. Cyflwynir y berthynas gyfeillgar a chwareus rhwng Alun a'i ddat-cu (y mae'n rhannu ei enw ag ef). | Y Lolfa<br>9781847714589<br>£5.95 |
| **Prism**<br>Manon Steffan Ros | Perthynas brodyr • Teulu<br>Hynt a helynt Twm a Math sy'n dianc o'u cartref ac yn mynd i deithio o amgylch Cymru, gan aros ym Mhwllheli, Aberdaron, Porthmadog, Aberystwyth, Llangrannog a Thyddewi. | Y Lolfa<br>9781847713452<br>£5.95 |
| **Sgrech y Môr**<br>Casia Wiliam | Antur<br>Mae Siôn yn mynd i aros gyda'i fodryb yn ystod gwyliau'r haf ac o dipyn i beth, mae'n darganfod ei fod yn hanu o deulu'r sipsiwn Cymreig. | Y Lolfa<br>9781847717429<br>£5.95 |
| **Stwff – Guto S. Tomos**<br>Lleucu Roberts | Mae Guto'n 14 oed ac yn cadw dyddiadur. Ond mae'n hollol wahanol i ddyddiadur Adrian Mole ac Anne Frank! Mae'n aelod o deulu anghonfensiynol, mae e mewn cariad gyda bwli, mae'n arwain protest yn erbyn gwersi cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ac yn cael ei hun yn ystafell Ffowcyn Jones, y prifathro, yn rhy aml. | Y Lolfa<br>9781847712387<br>£5.95 |
| **Y Tatŵ**<br>Mari George | Bwlio<br>Mae Catrin yn cael ei bwlio ar Facebook gan Jan. Ond pan mae Jan yn dangos llun arbennig i Catrin, mae'r ddwy'n dod o hyd i wybodaeth sy'n eu clymu am byth. | Y Lolfa<br>9781847718983<br>£5.95 |
| **Trwy'r Darlun**<br>Manon Steffan Ros | Ffantasi • Hud a lledrith<br>Awn gyda Cledwyn a Siân drwy'r darlun ac ar hyd twnnel i wlad Crug. Yno cawn gwrdd â Gili Dŵ caredig – cymeriad rhychiog a moel, byr ond hynod o gryf. | Y Lolfa<br>9781847710284<br>£5.95 |
| **Trwy'r Tonnau**<br>Manon Steffan Ros | Yn y dilyniant hwn i *Trwy'r Darlun*, mae Cledwyn, Siân a Gili Dŵ'n cael antur arall. Mae *Trwy'r Tonnau* yn datrys mwy o ddirgelion am eu rhieni a chawn gwrdd â chymeriadau newydd sbon. | Y Lolfa<br>9781847710758<br>£5.95 |
| **Y Bancsi Bach**<br>Tudur Dylan Jones | Mae Owen yn artist dawnus, sy'n creu lluniau graffiti ar un o waliau'r dre yn y dirgel, ganol nos. Ond mae cysylltiad rhwng y lluniau a phobl ddieithr sy'n cyrraedd yr ysgol ... | Y Lolfa<br>9781847716965<br>£5.95 |

| | | |
|---|---|---|
| **Y Cwestiwn Mawr**<br>Meinir Pierce Jones | Caerdydd, Sir Fôn, Lerpwl, cloc, dirgelwch y fan goch, pasbort ac arian yn cael eu dwyn – dyna ddechrau ar antur i Dan pan aiff i aros gyda'i Yncl Roli tra mae ei fam ar daith ym Mheriw. | Y Lolfa<br>9781847712134<br>£5.95 |
| **Y Planhigyn**<br>Mihangel Morgan | Doedd Martin ddim yn edrych ymlaen at fynd i siopa gyda'i fam a'i chwaer ond yn ystod ei drip daeth ar draws y planhigyn hynod Genau Fenws. Am blanhigyn rhyfeddol! Gall fwyta pob dim dan haul gan gynnwys pobl, ac yn wir mi all ddysgu gwers i bob yr un ohonom ni. | Y Lolfa<br>9781847717436<br>£5.95 |
| **Yani**<br>Mari Stevens | Tor priodas<br>Dyma nofel am ferch sydd â'i rhieni wedi gwahanu, gyda'i thad yn mynd 'nôl at ei wreiddiau ac yn olrhain ei gefndir Aborijini. | Y Lolfa<br>9781847711380<br>£5.95 |

***Cyfres Zoella***

| | | |
|---|---|---|
| **Merch Ar-lein**<br>Zoe Sugg aka Zoella<br>(Eiry Miles) | Mae cyfrinach gan Penny. Mae hi'n defnyddio ffugenw ar-lein i ysgrifennu blog sy'n gwbl agored am ei holl broblemau â ffrindiau, ysgol, ei theulu gwallgof a'r pyliau panig sy'n dechrau rheoli ei bywyd. Er mwyn ceisio helpu, mae'r teulu'n mynd â hi i Efrog Newydd, lle mae'n cwrdd â Noa, Americanwr ifanc, golygus, ac yn sydyn, mae'r blog yn llawn hanes Penny'n syrthio mewn cariad! | Rily<br>9781849670203<br>£8.99 |
| **Merch Ar-lein: Ar Daith**<br>Zoe Sugg aka Zoella<br>(Eiry Miles) | Pan gaiff Penny wahoddiad gan Noa, ei chariad golygus, i ymuno ag ef ar daith gerddorol yn Ewrop, fedrith hi ddim aros. Ond mae Penny'n gweld eisiau ei theulu, ei ffrind gorau Elliot ac ysgrifennu ei blog. Tybed a all hi ddysgu cydbwyso ei bywyd bob dydd gyda chariad, neu a fydd yn colli'r cyfan wrth chwilio am yr haf perffaith? | Rily<br>9781849670654<br>£8.99 |
| **Merch Ar-lein: Neb Ond Fi**<br>Zoe Sugg aka Zoella<br>(Eiry Miles) | Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd mae Penny'n ôl yn yr ysgol ac yn gorfod wynebu'r byd ar ei phen ei hun. Does neb, gan gynnwys Penny, yn gwybod ble mae Noa. A fydd ymweld ag ysgol berfformio Megan yn helpu Penny i anghofio am Noa, neu fydd y lle'n ei hatgoffa hi amdano byth a hefyd? | Rily<br>9781849670920<br>£8.99 |

## Stori Sydyn

***Chwaraeon***

| | | |
|---|---|---|
| **Aled a'r Fedal Aur**<br>Aled Sion Davies<br>Lynn Davies | Stori'r Pencampwr Paralympaidd Aled Sion Davies. Enillodd fedal aur am daflu'r ddisgen a medal efydd am daflu'r siot yng Ngemau Paralympaidd Llundain 2012. Yn 21 mlwydd oed roedd yn un o'r athletwyr ifancaf yn nhîm Prydain ac yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus. | Y Lolfa<br>9781847718389<br>£1.00 |
| **Ar dy Feic**<br>Phil Stead | Profiadau Cymro yn beicio o amgylch Cymru a Ffrainc mewn llyfr sydd hefyd yn rhoi cyflwyniad cyffredinol i gamp, sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd. Mae'n ysgrifennu am ei salwch a sut mae beicio wedi'i helpu i oresgyn rhai anawsterau. | Y Lolfa<br>9781784611125<br>£1.00 |
| **Cymry Man U**<br>Gwyn Jenkins | Bu clwb pêl-droed Manchester United yn ddibynnol iawn ar gyfraniadau Cymry fel Billy Meredith, Jimmy Murphy, Mark Hughes a Ryan Giggs ar hyd y blynyddoedd. Dyma lyfr sy'n cyflwyno'r hanes mewn modd difyr a darllenadwy. | Y Lolfa<br>9781847712967<br>£1.99 |
| **Cymry Mentrus**<br>John Meurig Edwards | Hanes rhai o anturiaethwyr mwyaf mentrus Cymru, fel Owen Glynne Jones, Richard Parks ac Eric Jones, y dringwyr; Robin Jac a'r rasys TT; Tom Pryce a enillodd ras Formula 1 a menywod dewr fel Lowri Morgan ac Elin Haf Davies. Yn y gyfrol hon cawn hanes rhai o arwyr y gorffennol a'r presennol, a rhyfeddu at eu menter a'u dewrder. | Y Lolfa<br>9781847716347<br>£1.99 |
| **Cymry yn y Gêmau Olympaidd**<br>John Meurig Edwards | Hanes y Cymry a fu'n llwyddiannus yn y Gêmau Olympaidd dros y blynyddoedd – yr 20 medal aur, 11 arian ac 18 efydd, hyd yn hyn ... | Y Lolfa<br>9781847714107<br>£1.99 |
| **Foxy'r Llew**<br>Jonathan Davies<br>Alun Gibbard | Hanes bywyd a gyrfa y chwaraewr rygbi poblogaidd Jonathan Davies, canolwr Cymru a'r Llewod. Mae'n un o chwaraewyr amlycaf Cymru erbyn hyn ac mae ganddo bron i 40 cap. Cafodd ei ddewis i chwarae i dîm y Llewod ar eu taith i Awstralia yn 2013. | Y Lolfa<br>9781847718365<br>£1.00 |
| **George North**<br>George North<br>Alun Gibbard | Hanes cyffrous y chwaraewr rygbi dawnus o Sir Fôn, George North – ei atgofion, ei gemau cofiadwy a'r bobol a gafodd ddylanwad arno. | Y Lolfa<br>9781847716361<br>£1.99 |

| | | |
|---|---|---|
| **Hartson**<br>John Hartson<br>Lynn Davies | Stori bywyd un o flaenwyr pêl-droed mwyaf llwyddiannus Cymru a gafodd gancr yn 2009 ond a oroesodd wedi brwydr bersonol enbyd. | Y Lolfa<br>9781847712950<br>£1.99 |
| **Herio i'r Eithaf**<br>Huw Jack Brassington | Mae Huw Brassington yn gyflwynydd, siaradwr gwadd, awdur, anturiwr ac athletwr o fri. Mae wedi cyflawni rhai o rasys anoddaf y byd, gan gynnwys y Coast to Coast yn Seland Newydd. Daw o Sir Gaernarfon yn wreiddiol ond mae bellach yn byw yn Swydd Cumbria gyda'i wraig Gwenllian, ac yn ddarlithydd Peirianneg. | Y Lolfa<br>9781784618384<br>£1.00 |
| **Rhwng y Pyst – Hunangofiant Owain Fôn Williams**<br>Owain Fôn Williams<br>Lynn Davies | Mae Owain Fôn Williams yn aelod o garfan pêl-droed Cymru ac yn y gyfrol hon cawn gip y tu ôl i'r llenni i gyfnod y tîm llwyddiannus yn Ffrainc yng nghystadleuaeth Ewro 2016. Ond mae mwy i'r golwr o Ben-y-groes na chwarae pêl-droed – mae'n gerddor ac yn artist, ac yn Gymro i'r carn. | Y Lolfa<br>9781784613792<br>£1.00 |
| **Y Goliau a'r Dagrau – Stori Tash Harding**<br>Dylan Ebenezer | Hanes anhygoel Natasha Harding, pêl-droedwraig sydd wedi bod yn nhîm merched Cymru ers blynyddoedd. Ers iddi ddechrau chwarae yn yr ysgol gynradd ac yna yn Ysgol Cwm Rhymni, ynghanol rhagfarnau di-ri, mae Tash wedi gweld newidiadau mawr, ac mae proffeil timau cenedlaethol merched wedi codi'n aruthrol. | Y Lolfa<br>9781784616991<br>£1.00 |
| ***Hanes*** | | |
| **Arwyr Cymru**<br>Jon Gower | Dyma hanes 13 o arwyr Cymru ym marn Jon Gower. Ceir yma arwyr cyfarwydd a rhai mwy anghyfarwydd, unigolion a mudiadau: Betsi Cadwaladr, Dic Penderyn, Griffith Jones, y Dywysoges Gwenllian, Hedd Wyn, Iolo Morganwg, Jemeima Niclas, Merched Beca, Owain Glyndŵr, Twm Siôn Cati, W. H. Davies, William Williams a'r Siartwyr. | Y Lolfa<br>9781784615475<br>£1.00 |
| **Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf**<br>Gwyn Jenkins<br>Gareth William Jones | Dyma hanes rhai o'r Cymry yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf gan ddilyn hynt y rhyfel yn gronolegol. | Y Lolfa<br>9781784611118<br>£1.00 |
| ***Cymry*** | | |
| **Wil ac Aeron**<br>Heulwen Ann Davies | Cyfrol sy'n sôn am gyfeillgarwch Wil ac Aeron ers dyddiau eu plentyndod ym Mro Ddyfi. Daeth cyfle iddyn nhw berfformio a sgriptio yn y Clwb Ffermwyr Ifanc ac arweiniodd hynny at gyflwyno rhaglen o'r Sioe Fawr ar S4C. Erbyn hyn mae'r ddau wedi cael sawl cyfres ar y teledu ac yn cyflwyno ar y radio. | Y Lolfa<br>9781784617004<br>£1.00 |
| **Meddyliau Eilir**<br>Eilir Jones | Mae Eilir Jones wedi bod yn hel meddyliau ac wedi sylweddoli ei fod yn byw ar blaned sy'n llawn o bobl wallgo. Mae'n rhannu ei feddyliau ac yn barod i helpu unrhyw un sydd wedi cael trafferth gyda'r bobol yma. Llyfr llawn hiwmor gan y digrifwr poblogaidd. | Y Lolfa<br>9781847716354<br>£1.99 |
| **Hiwmor Nigel**<br>Nigel Owens | Llyfr llawn jôcs y dyfarnwr rygbi a'r diddanwr o Bontyberem. Mae ynddo hefyd straeon difyr (ac ambell gyfrinach!) o'r cyfresi teledu *Bwrw'r Bar* a *Jonathan*. | Y Lolfa<br>9781847711755<br>£1.99 |
| ***Ffuglen*** | | |
| **Inc**<br>Manon Steffan Ros | Lluniau ar groen, dyna'r cyfan ydi tatŵs. Ond i'r rhai sy'n dod i stiwdio tatŵs Ows, ac i Ows ei hunan, maen nhw'n symbol o rywbeth dyfnach nag addurn o inc ar eu cyrff yn unig. Mae gan bawb ei reswm dros gael tatŵ, a gall hwnnw fod yn un annisgwyl weithiau. | Y Lolfa<br>9781847716330<br>£1.99 |
| **Pobl Fel Ni**<br>Cynan Llwyd | Cariad ifanc • Hiliaeth • Sefyll yn erbyn anghyfiawnder<br>Mae digwyddiadau'r nofel yn para dros gyfnod o tua 24 awr mewn dinas yng Nghymru yn y dyfodol agos. Mae'n dilyn Nathan a Sadia, sy'n gariadon, wrth iddyn nhw fynychu cyngerdd. Yn ystod y gyngerdd mae ffrwydrad ac mae'r ddau'n cael eu gwahanu. Daw agweddau a rhethreg hiliol i'r amlwg yn sgil sefyllfa economaidd fregus y wlad, a gwleidyddion asgell-dde. | Y Lolfa<br>9781784618377<br>£1.00 |
| ***Cyfres y Geiniog*** | | |
| **Gwyn a Gwenno**<br>Hywel Griffiths | Nofelau sy'n cefnogi addysg ariannol.<br>Mae Gwyn a Gwenno'n dod o hyd i rywbeth rhyfeddol ar draeth Aberystwyth. Ond mae rhywun arall yn gwylio pob symudiad. Dyna ddechrau antur gyffrous ym mryniau gwyllt a pheryglus Ceredigion. All y plant gadw un cam ar y blaen? | Canolfan Peniarth<br>9781783900664<br>£5.99 |

| | | |
|---|---|---|
| **Annwyl Mr Rowlands**<br>Manon Steffan Ros | Mae Huw yn gwybod ei fod o mewn trwbl pan mae Dad yn gweld ei adroddiad. Fel petai unrhyw beth o'i le ar fod yn freuddwydiwr! Mae Mr Rowlands, athro caredig Huw, yn awgrymu y byddai sgwennu dyddiadur neu lythyrau yn ei helpu i ganolbwyntio. Ond mae Dad yn siŵr mai'r unig ffordd o helpu Huw ydy stopio'i arian poced. A fydd Huw yn gallu plesio'i dad? Ac a fydd o'n medru cynilo i brynu'r gêm mae o'n torri ei fol eisiau ei chael? | Canolfan Peniarth<br>9781783900671<br>£5.99 |
| **Dan Draed**<br>Gwenno Davies | Mae gan Dan freuddwyd, sef y bydd, ryw ddydd, yn llwyddo. Ond tydi llwyddo ddim yn hawdd pan mae'r byd yn eich erbyn, ac mae'r byd wedi bod yn erbyn Dan, ers y diwrnod iddo gael ei eni a'i enwi, gan ei fam, yn Dan Draed Davies. Er mwyn llwyddo rhaid iddo gael arian, a tydi hynny ddim yn hawdd, fel mae ei fam yn mynnu ei atgoffa drwy'r amser. A all Dan lwyddo, a'i phrofi hi a phawb arall yn anghywir? | Canolfan Peniarth<br>9781783900657<br>£5.99 |
| **Diffodd y Golau**<br>Manon Steffan Ros | Mae Sam a Mai a'u mam yn gwneud yn iawn heb Dad, tan i'r ffatri leol gau, ac mae Mam yn colli ei gwaith. Mae'n rhaid iddyn nhw ofalu am bob ceiniog, a byw heb bethau mae'r rhan fwyaf o bobl yn dibynnu arnyn nhw. Ar ben hynny, mae Dad yn mynnu dangos ei hun gyda'i fflat fawr newydd a'i gar drud. A fydd y teulu'n ymdopi gyda chyn lleied o arian? Ac a fydd Mam yn dod o hyd i swydd newydd? | Canolfan Peniarth<br>9781783900640<br>£5.99 |
| ***Cyfres y Dderwen*** | | |
| **Annwyl Smotyn Bach**<br>Lleucu Roberts | Nofel wedi'i gosod yn y dyfodol lle mae'r Brawd Mawr yn cadw llygad ar bopeth, yn dilyn ymgais mam feichiog i ddianc ac ymladd yn erbyn y drefn. | Y Lolfa<br>9781847710277<br>£5.95 |
| **Deryn Glân i Ganu**<br>Sonia Edwards | Cyfres o ymsonau yn dangos ymateb cymeriadau'r llyfr i'r un digwyddiadau, a'r cyfan yn cyrraedd diweddglo dirdynnol. | Y Lolfa<br>9781847711052<br>£5.95 |
| **Y Ddwy Lisa**<br>**– Sgrech y Dylluan**<br>Gareth F. Williams | Hanes Lisa Angharad a Lisa Marie, y ddwy ar yr wyneb yn gymeriadau hollol wahanol i'w gilydd. Ond daw eu bywydau ynghyd mewn modd tywyll sydd y tu hwnt i realiti. | Y Lolfa<br>9781847712370<br>£5.95 |
| **Y Ddwy Lisa**<br>**– Cysgod yr Hebog**<br>Gareth F. Williams | Mae bywydau'r ddwy Lisa yn gorgyffwrdd fwyfwy, er mor annhebygol mae hynny'n ymddangos ar yr olwg gyntaf. Dilyniant i *Y Ddwy Lisa – Sgrech y Dylluan*. | Y Lolfa<br>9781847711915<br>£5.95 |
| **Y Ddinas ar Ymyl y Byd**<br>Arwel Vittle | Tu mewn i furiau'r Ddinas mae milwyr creulon, dynion busnes llwgr, Ceidwad hollbresennol, merch â marc dirgel ar ei hysgwydd a chyfrinachau'r awdurdodau. Mae'r Argyfwng a'r Haint wedi gadael eu hôl ac wedi troi natur ben i waered. | Y Lolfa<br>9781847712127<br>£5.95 |
| **Mari Wyn**<br>Sara Ashton | Nofel sy'n darlunio Blaenau Ffestiniog y dyfodol trwy lygad merch ifanc. Mae ei bywyd yn llawn helbulon, a byd 2029 yn llawn her. | Y Lolfa<br>9781847712141<br>£5.95 |
| **Yr Alarch Du**<br>Rhiannon Wyn | Nofel wedi'i gosod yn nhre Caernarfon, yn adrodd hanes perthynas tad alcoholig, ei fab, a merch o stad Sgubor Goch. Cawn bortread byw o'r dre a'r cymeriadau trwy lygaid y tri. | Y Lolfa<br>9781847713612<br>£5.95 |
| **Siarad**<br>Lleucu Roberts | Mae'r nofel hon yn adrodd hanes teulu sydd wedi mynd i fyw eu bywydau trwy'r sgrin – sgrin deledu a chyfrifiadur – yn hytrach nag yn y byd go iawn, gan arwain at ddiweddglo dirdynnol. | Y Lolfa<br>9781847713469<br>£5.95 |
| **Pentre Saith**<br>Ceri Elen | Cain yw'r prif gymeriad ac mae'r 'saith' yn y teitl yn cyfeirio at Saith Rhyfeddod Naturiol y Byd a Saith Oes Galar. | Y Lolfa<br>9781847713476<br>£5.95 |
| **Rhywle yn yr Haul**<br>Sonia Edwards | Nofel iasol am Nel yn dod o hyd i'w theulu gwaed a thrwy hynny cael ei thynnu i mewn i hanes llongddrylliad y Royal Charter yn 1859. Mae Ela'n cwrdd â'i gorffennol ac mae ysbrydion ar wahân i ysbryd Nel i'w herlid a'u rhoi i orffwys, ac nid yn unig mewn llefydd oer fel môr Moelfre a'r llongddrylliad erchyll, chwaith. | Y Lolfa<br>9781847716460<br>£5.95 |
| **Bore Da**<br>Gwennan Evans | Mae Alaw Mai yn gweithio'n ddiflino ar raglen radio foreol Richie ar PAWB FM. Ond, un bore, daw ei chyfle mawr. | Y Lolfa<br>9781847714664<br>£2.99 |
| **Dim**<br>Dafydd Chilton | Stori am ymdrech dyn i oroesi mewn byd o rymoedd sy'n llawer fwy pwerus nag ef ei hun, yn benodol felly rymoedd Dyn a Natur. Sut mae dyn i ddelio â'r grymoedd hyn – drwy wrthryfela neu drwy gydymffurfio? | Y Lolfa<br>9781847714381<br>£5.95 |

## Nofelau Ditectif

| | | |
|---|---|---|
| **Gwaed y Gwanwyn**<br>Gareth F. Williams | Nofel am lofruddiaeth Jania, merch o Lithwania a ddihangodd i dref fach yng ngogledd Cymru o Lerpwl chwe mis yn gynharach. | CAA Cymru<br>9781845213930<br>£6.00 |
| **Nemesis**<br>Geraint Evans | Wrth i bwysau gwaith ysgol gynyddu a pherthynas Jade â'i theulu ddirywio wedi ysgariad ei rhieni, dim ond Lowri ei ffrind gorau, ynghyd â Facebook, sydd yn dod ag unrhyw gysur iddi, ond am ba hyd? Wrth gyfarfod dihirod dros y we, dydi pethau ddim yn fêl i gyd ac mae Jade yn cael ei hamsugno i fyd afiach stelcwyr ysglyfaethus. Dim ond Pixie y ditectif all ei helpu i ddianc. | CAA Cymru<br>9781845214531<br>£6.00 |
| **Sgwid Beynon a'r Adenydd Angel**<br>Siân Lewis | Mae Magi Trevena a'i merch Anna, a oedd yn rhentu'r tŷ drws nesaf i Sgwid Beynon, wedi diflannu'n ddirybudd bythefnos yn ôl. Beth sy wedi digwydd i Magi ac Anna? Mae Sgwid yn mynd i Lundain i rybuddio'i dad ac mae'r dyn dieithr yn ei ddilyn. | CAA Cymru<br>9781845213459<br>£6.00 |
| **Sgwid Beynon a'r Dyn Marw**<br>Siân Lewis | Mae Sgwid yn chwaraewr snwcer dan hyfforddiant ac yn treulio amser yng Nghaerdydd gyda'i hyfforddwr Gari Humphreys. Dyna'r unig beth sydd ar ei feddwl, hynny a'r ffaith bod Cymru newydd guro Awstralia yn Stadiwm y Mileniwm! Ond yna mae Anna yn cysylltu ag ef ar ôl iddi weld Dustin Starr – yr un Dustin Starr a oedd yn bwriadu ffrwydro awyren Arlywydd Rwsia hyd nes i Sgwid ei atal. A'r un Dustin Starr sydd wedi'i gladdu ym mynwent Pencelyn ... | CAA Cymru<br>9781845213916<br>£6.00 |

## Cyfres Mellt

| | | |
|---|---|---|
| **Llwyth**<br>Bethan Gwanas | Nofel am lwythau gwahanol yn ymladd am eu hunaniaeth – y Bleiddiaid, y Brain, yr Eirth a'r Dreigiau. Wrth i'r gelyn fygwth eu trechu rhaid i'r llwythau ddod ynghyd a chydweithio er mwyn ennill y dydd. | Y Lolfa<br>9781847716491<br>£4.95 |
| **Pedwar**<br>Lleucu Roberts | Nofel yn dilyn pedwar yn ffoi o'u cartref sy'n llawn problemau ond yn darganfod bod bywyd oddi cartref yn eu gorfodi i wynebu problemau gwaeth. | Y Lolfa<br>9781847716484<br>£4.95 |
| **Rhaffu Celwyddau**<br>Gwenno Hughes | Ar ddiwrnod ei phen-blwydd mae damwain drasig yn digwydd, ac yn ei sgil mae digwyddiadau dryslyd o'r gorffennol yn cael eu codi fel crachen. Mae Non yn teimlo bod pawb wedi'i bradychu trwy gydol ei bywyd. Does dim modd dibynnu ar Adam, ei chariad, hyd yn oed. Mae hwnnw i fod yn gefn iddi hi ynghanol y storm deuluol yma. | Y Lolfa<br>9781847716477<br>£4.95 |
| **Eilian a'r Eryr**<br>Euron Griffith | Mae gan Eilian ddychymyg byw ac mae'n breuddwydio'n barhaus. Mae hefyd yn ysgrifennu stori ffantasïol ar ei gyfrifiadur am 'Yr Eryr', arwr hudol a phwerus. Ond un diwrnod mae'r Eryr yn dianc oddi ar y dudalen ac yn rhoi antur werth chweil i'n harwr, a gwneud ei fywyd yn llawer esmwythach nag o'r blaen. | Y Lolfa<br>9781847716828<br>£4.95 |
| **Nico**<br>Leusa Fflur Llewelyn | Mae Nico newydd symud i fyw ger llyn reit anghysbell. Mae'n ymweld â'r llyn bob nos ond un noson mae'n gweld potel fach frwnt yn y dyfroedd, ac mae neges fach ynddi. Ymhen dim, wedi iddo ddarllen y neges, mae Nico yn cael ei dywys i wlad Selador, a daw i ddysgu llawer o bethau am y llyn hudol! | Y Lolfa<br>9781847716811<br>£4.95 |
| **Hwdi**<br>Gareth F. Williams | Mae Lois a'i mam yn symud i dŷ newydd, ond cyn pen dim mae Lois yn taeru bod dihiryn yn llechu yno. Mae pawb yn meddwl ei bod hi'n un od a dydy hi ddim yn cael llawer o gydymdeimlad gan ei ffrindiau. Wrth iddi rygnu drwy'r act fawr fod popeth yn iawn, mae pethau'n mynd o ddrwg i waeth ac nid yn unig dychmygu rhywun yn 'lyrcio' mae hi, ond daw llais 'hen ddyn powld' dros ei ffôn hefyd un diwrnod. Pwy yw'r dihiryn, a sut goblyn gall Lois gael ei wared? | Y Lolfa<br>9781847716804<br>£4.95 |

## Byd y Bwystfilod

| | | |
|---|---|---|
| **1. Tania'r Ddraig Dân**<br>Adam Blade<br>(Tudur Dylan Jones) | Llyfrau antur • Ffantasi<br>Mae dewin dieflig wedi hudo bwystfilod lledrithiol teyrnas Afantia – dim ond gwir arwr all ryddhau'r bwystfilod a'u hatal rhag dinistrio'r lle. Ai Tom yw'r arwr y mae Afantia wedi bod yn disgwyl amdano? | Rily<br>9781904357544<br>£4.99 |
| **2. Sepron, Y Neidr Fôr** | Mae Afantia'n cael ei bygwth gan ei bwystfilod hudol, sydd wedi cael eu hudo gan ddewin dieflig. I arbed ei wlad a'i bobl, mae'n rhaid i Tom ymladd yn erbyn Sepron, Sarff y Môr, yn nyfnderoedd y cefnfor – ond a fydd yn llwyddo? | Rily<br>9781904357551<br>£4.99 |

| | | |
|---|---|---|
| **3. Idris, Cawr y Mynydd** | Mae'n rhaid i Tom ryddhau bwystfilod lledrithiol Afantia o felltith ddieflig. Gyda chleddyf a tharian a gafodd gan y Dewin Aduro, mae'n cychwyn ar ei daith i wynebu Idris, Cawr y Mynydd. All Tom achub ei wlad rhag cael ei dinistro? | Rily<br>9781904357919<br>£4.99 |
| **4. Tagus y Ceffyl-Ddyn** | Mae angen arwr ar Afantia. Wedi'u melltithio gan swyn dewin dieflig, mae'r bwystfilod hud fu'n gwarchod y tir unwaith, bellach yn ei ddinistrio. Mae Tagus y ceffyl-ddyn yn dychryn pobl ac anifeiliaid y gwastadiroedd – all Tom ei rwystro? | Rily<br>9781904357971<br>£4.99 |
| **5. Rhewfys Anghenfil yr Eira** | Mae bwystfilod hudol Afantia dan ddylanwad melltithiol dewin dieflig. Mae Tom yn teithio i'r gogledd oer i chwilio am Rhewfys, Anghenfil yr Eira. A fydd yn medru goroesi yn y tywydd gaeafol er mwyn gollwng yr anghenfil yn rhydd? Ac a fedrwch chi oroesi cyrch y bwystfilod? | Rily<br>9781849671262<br>£4.99 |
| **6. Epos Aderyn y Fflam** | Mae dewin dieflig yn defnyddio bwystfilod rhyfeddol Afantia i ddinistrio'r wlad. Epos Aderyn y Fflam yw'r bwystfil mwyaf brawychus ohonynt, ond a fydd Tom yn llwyddo i ryddhau'r aderyn o'r swyn a roddwyd arni, a thrwy hynny ryddhau gwlad Afantia? | Rily<br>9781849671279<br>£4.99 |

## Cyfres Nofelau i'r Arddegau

| | | |
|---|---|---|
| **Chwarae'n Troi'n Chwerw**<br>Tudur Williams | **Bywyd yr arddegau**<br>Nofel yn portreadu bywyd cythryblus llanc un ar bymtheg oed sy'n profi cyffuriau am y tro cyntaf, ac yn cael ei arestio yn dilyn damwain mewn car wedi'i ddwyn pan gaiff merch ifanc niwed difrifol. | Gwasg Carreg Gwalch<br>9780863817410<br>£3.99 |
| **Sgribls Hogan Flêr**<br>Gwen Lasarus | Nofel ar ffurf dyddiadur difyr merch ifanc dair ar ddeg oed yn cofnodi'r modd y mae'n dygymod â throeon bywyd, siom a chyffro syrthio mewn cariad, teulu, athrawon a ffrindiau, marwolaeth ei nain, yfed dan oed a chyffuriau. | Y Lolfa<br>9780862435684<br>£3.95 |
| **Snogs a Sgribls Hogan Flêr**<br>Gwen Lasarus | Dilyniant i *Sgribls Hogan Flêr*. | Y Lolfa<br>9780862436711<br>£3.95 |
| **Swshi, Snogs a Sgribls Hogan Flêr**<br>Gwen Lasarus | Mwy o helyntion y ferch benboeth yn ei harddegau – dyddiadur sy'n ddilyniant i *Sgribls Hogan Flêr* a *Snogs a Sgribls Hogan Flêr*. | Y Lolfa<br>9780862439286<br>£4.95 |

## Ben Bril

| | | |
|---|---|---|
| **Ben Bril a'r Snichod**<br>David Orme<br>(Gruffudd Antur) | **Arddull Manga**<br>Dewch i ddilyn hynt a helynt Ben Bril, bachgen 14 oed sydd â'i fryd ar achub y byd! Mae'r Ddaear mewn perygl, mae llongau o'r gofod ar ei ffordd i ddwyn dŵr y Ddaear, ac mae'n rhaid i rywun atal y Snichod! Ydy Ben Bril yn gallu meddwl am ffordd o achub y Ddaear? | Atebol<br>9781908574886<br>£4.99 |
| **Ben Bril a'r Ninja yn y Ddinas** | Draw yn y Ddinas Ddiwyd mae'r ninja dieflig, Brochfael, yn defnyddio'r teledu i droi pob dewin yn gaethwas iddo. Ar ben hyn, cipiodd Sgilti, ond tybed a all Ben Bril ei achub ac atal Brochfael rhag rheoli'r byd? | Atebol<br>9781909666023<br>£4.99 |
| **Ben Bril a'r Ddinas Ddirgel** | Mae pobl yn diflannu cyn ailymddangos unwaith eto. Ond mae'r rhai sy'n ailymddangos ddim yr un fath â'r rhai sydd wedi diflannu. Dyma joban i Ben Bril! Mae Ben Bril a Brochfael y Ninja yn penderfynu gweld beth sy'n digwydd. | Atebol<br>9781909666016<br>£4.99 |
| **Ben Bril a Choedwig y Ninja** | Mae Sgilti wedi ymuno â gang o ladron Ninja. Mae Sarjant Cyffion wedi gweld llun CCTV o Sgilti wedi stopio lorri, a honno'n llawn bariau aur! Ydy hyn yn wir? Ydy Sgilti wedi ymuno â'r lladron? Mae Ben Bril mewn penbleth – sut mae cael at y gwir. | Atebol<br>9781908574893<br>£4.99 |

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â**
Shoned Davies, Swyddog Ysgolion: ysgolion@llyfrau.cymru
neu plant.cllc@llyfrau.cymru
01970 624151



Mae llu o lyfrau eraill ar gael yn eich siop lyfrau leol neu ar gwales.com
Dalier Sylw- gall fod newdiadau yn y prisiau